

Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24

Chwefror 2023

Cynnwys

Argymhellion	3
1. Cefndir	7
Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24	7
Ein dull o graffu ar y Gyllideb Ddrafft	8
2. Tryloywder	11
Hawliau plant	11
Yr wybodaeth a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru am ei Chyllideb Ddrafft	13
Ein barn ni	14
3. Addysg a'r Gymraeg	17
Prif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg yn ei gyfanrwydd.....	17
Pwysau costau byw ar ddysgwyr a theuluoedd	18
Addysg cyn 16 oed	23
Yr agenda Cymraeg 2050	30
Addysg ôl-16.....	31
Ein barn ni	38
4. Iechyd a Gofal Cymdeithasol	48



Y Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn ei gyfanrwydd	48
Effaith yr argyfwng costau byw ar blant a phobl ifanc	49
Iechyd emosiynol ac iechyd meddwl.....	49
Iechyd corfforol.....	52
Diogelu plant sydd â phrofiad o ofal	54
Dechrau'n Deg a'r cynnig gofal plant	58
Tlodi plant	60
Ein barn ni	61

Argymhellion

Argymhelliad 1. Rhaid i Lywodraeth Cymru lunio Aseiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ar gyfer ei Chyllideb Ddrafft i ddangos ei bod yn cydymffurfio â Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, fel y nodir yn ei Chynllun Hawliau Plant ei hun.....15

Argymhelliad 2. Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu gweithgor trawsadrannol i wella ansawdd a chysondeb y dystiolaeth ysgrifenedig y mae'n ei rhoi i Bwyllgorau'r Senedd i gefnogi'r broses o graffu ar y Gyllideb Ddrafft, gan fanteisio ar yr arfer da a geir eisoes ar draws adrannau'r llywodraeth.....16

Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth Cymru warantu y caiff y rhaglen prydau ysgol am ddim yn ystod gwyliau ysgol ei hystemyn drwy gydol cyfnod cyllideb 2023-24: hyd at a chan gynnwys gwyliau ysgol mis Chwefror 2024.....39

Argymhelliad 4. Dylai Llywodraeth Cymru greu Llinell Wariant ychwanegol yn y Gyllideb o fewn Cam Gweithredu y Grant Datblygu Disgyblion (neu ba bynnag Gam Gweithredu y mae'n credu sy'n briodol) ar gyfer Hanfodion Ysgol, er mwyn gwahanu'n glir y cyllid a ddyrennir i'r Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer ysgolion ar y naill law, ac i Hanfodion Ysgol ar gyfer teuluoedd ar y llall.40

Argymhelliad 5. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru egluro'r canlynol:40

- a oes rhaid i ysgolion dalu costau dyfarniad cyflogau athrawon blwyddyn academiaidd 2022-23 gan ddefnyddio'r cyllid a roddwyd iddynt drwy'r Grant Cynnal Refeniw ar gyfer blynyddoedd ariannol 2022-23 a 2023-24; a
- faint o gyllid ychwanegol y mae'n disgwyl y bydd ar gael i ysgolion yn 2023-24 o gymharu â 2022-23 ar ôl talu costau dyfarniad cyflogau athrawon 2022-23.

Argymhelliad 6. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru gomisiynu adolygiad annibynnol o'r Lwfans Cynhaliath Addysg, a dylai gyflwyno adroddiad erbyn mis Rhagfyr 2023 fan bellaf. Dylai'r adolygiad ystyried:.....41

- effaith y **lwfans** ar benderfyniadau dysgwyr i ymgymryd ag astudio pellach;
- effaith y **lwfans** ar ymgysylltiad dysgwyr â'u hastudiaethau ar ôl iddynt gofrestru;
- effaith y **lwfans** ar allu dysgwyr i ymdopi â phwysau ariannol yn fwy cyffredinol, yn benodol yng ngoleuni'r argyfwng costau byw;

- yng nghyd-destun yr uchod, beth ddylai'r meini prawf cymhwysedd a gwerth y cymorth ar gyfer y **lwfans** fod; a
- sut y dylid cadw llygad ar y meini prawf a gwerth cymorth yn y dyfodol.

Argymhelliad 7. Rhaid i Lywodraeth Cymru gyhoeddi canfyddiadau'r gwaith y mae wedi'i wneud ers ei hymateb ym mis Mawrth 2022 i'n hadroddiad ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2022-23 er mwyn deall beth fyddai'r gyfradd lwfans a'r trothwyon incwm heddiw, ar gyfer yr un gyfran o ddysgwyr o'i chymharu â 2004, a faint o gyllideb ychwanegol y byddai ei hangen.....42

Argymhelliad 8. Rhaid i Lywodraeth Cymru ailystyried ei phenderfyniad i "gynnal" yr LCA sydd, i bob pwrpas, wedi arwain at LCA â llai o werth mewn termau real i lai o fyfyrwyr.....42

Argymhelliad 9. Mae'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig yn argymhell ar y cyd y dylai Llywodraeth Cymru roi manylion i'r ddau bwyllgor ynghylch sut y mae Gweinidog yr Economi a Gweinidog y Gymraeg ac Addysg yn cydweithio ar gymhellion i bobl ifanc aros mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. Dylai hyn gynnwys unrhyw waith sy'n cael ei wneud o ganlyniad i'r cynnydd yng nghostau byw.....42

Argymhelliad 10. Rhaid i Lywodraeth Cymru egluro ei safbwynt polisi ar gronfeydd wrth gefn ysgolion. Yn benodol:.....44

- pa ffrydiau cyllid y gall ysgolion eu trosglwyddo i gronfeydd wrth gefn;
- ar gyfer beth y gellir defnyddio cronfeydd wrth gefn ysgolion, ac yn benodol a all ysgolion eu defnyddio at ddibenion cyfalaf (gyda chydysyniad priodol yr awdurdod lleol perthnasol); a
- sut mae'n disgwyl i awdurdodau lleol weithio gydag ysgolion i daro cydbwysedd priodol rhwng ymreolaeth ysgolion a'r defnydd priodol o gronfeydd ar gyfer disgyblion ledled Cymru (gan gynnwys defnydd awdurdodau lleol o'u pwerau statudol i gyfarwyddo ysgolion i wario balansau uwchlaw trothwyon penodedig neu adennill y cronfeydd hynny fel arall).

Argymhelliad 11. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gallai'r data y mae'n eu cyhoeddi ar gronfeydd wrth gefn ysgolion ddangos lefelau cronfeydd wrth gefn ysgolion yn ôl ffactorau fel canran y disgyblion ar y gofrestr fel cyfran o gyfanswm capasiti disgyblion, canran y disgyblion ar y gofrestr y mae eu teuluoedd yn bodloni'r meini prawf ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion, canran y disgyblion ar y gofrestr sydd wedi'u nodi ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, natur

wledig yr ysgol, ac unrhyw ffactorau eraill y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried yn addas.
.....44

Argymhelliad 12. Dylai Llywodraeth Cymru egluro manylion y gwariant trawslywodraethol a fydd yn cefnogi twf addysg cyfrwng Cymraeg a datblygiad sgiliau Cymraeg ym mhob lleoliad addysg.45

Argymhelliad 13. Rhaid i Lywodraeth Cymru nodi ei chynlluniau ar gyfer y Cynllun Sabothol Iaith Gymraeg 2023-24, gan gynnwys cyfanswm y dyraniadau cyllid ar gyfer y rhaglen, nifer yr ymgeiswyr a ragwelir, y cymorth - yn ariannol neu fel arall - a ddarperir i ysgolion i alluogi athrawon i ddilyn y cynllun sabothol, a sut mae'n monitro ac yn gwerthuso effeithiolrwydd y rhaglen.....45

Argymhelliad 14. Rhaid i Lywodraeth Cymru nodi'n glir, drwy ddiagram neu fel arall, y strwythurau llywodraethu sy'n goruchwyllo'r gwaith o werthuso a chyflwyno rhaglenni y Warant i Bobl Ifanc a Phrentisiaethau Gradd.46

Argymhelliad 15. Rhaid i Lywodraeth Cymru nodi'r canlynol:47

- Sut mae Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â'r sectorau addysg bellach ac uwch i ddatblygu ei dull strategol o gefnogi a datblygu ymchwil ac arloesi.
- Y mecanweithiau y mae gweision sifil o wahanol adrannau Llywodraeth Cymru yn eu defnyddio i gydweithio i ddatblygu cynigion polisi a chyllid i Weinidogion Cymru eu hystyried.
- Y mecanweithiau y mae Gweinidogion perthnasol Cymru yn eu defnyddio i ystyried y cynigion gan eu swyddogion a chytuno arnynt, a sut y gwneir penderfyniadau ynghylch dyrannu cyllid ar draws eu portffolios.
- Sut mae Llywodraeth Cymru yn monitro ac yn gwerthuso gwerth am arian ei buddsoddiadau ym maes ymchwil ac arloesi.
- Sut mae Llywodraethau Cymru yn gweithio ochr yn ochr â llywodraethau eraill y DU a sefydliadau addysg ôl-16 y tu allan i Gymru mewn perthynas â'r uchod.

Argymhelliad 16. Mae'r Pwyllgor Plant., Pobl Ifanc ac Addysg a'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn argymhell ar y cyd fod yn rhaid i ymatebion Llywodraeth Cymru i'n hadroddiadau, a phob chwe mis wedi hynny, ddarparu data i'r ddau bwyllgor, fesul bwrdd iechyd lleol, yn nodi:61

- amseroedd aros ar gyfer yr apwyntiad cyntaf gyda CAMHS;

- cyfran y bobl ifanc y cynigir ail apwyntiad iddynt; a’r
- amseroedd aros ar gyfer ail apwyntiad.

Argymhelliad 17. Rhaid i Lywodraeth Cymru egluro’r canlynol mewn perthynas â’i rhaglen waith i leihau’r costau sylweddol i awdurdodau lleol am gyflogi staff gwasanaethau cymdeithasol asiantaeth:.....62

- Cylch gorchwyl y rhaglen.
- Llinellau amser allweddol mewn perthynas â’i chyflawni.
- Y rhanddeiliaid a fydd yn gweithio ochr yn ochr â Llywodraeth Cymru.
- Trefniadau llywodraethu’r rhaglen: sut mae’r gwaith yn cael ei gyflawni, ei fonitro a’i werthuso.
- Amcangyfrif o'r cyllid a ddyrennir i'r rhaglen fesul blwyddyn ariannol.

Argymhelliad 18. Rhaid i Lywodraeth Cymru roi dadansoddiad ar lefel prosiect o’r gronfa newid ar gyfer plant sy’n derbyn gofal, y gronfa diwygio radical, a chyllid ar gyfer dileu elw o ofal maeth. Rhaid i’r dadansoddiad hwnnw gynnwys crynodeb o ddiben y prosiectau hynny, y prif bethau y gellir eu cyflawni, y cyllid a ddyrennir i’w cyflawni - a’r amserlenni sy’n gysylltiedig â’u cyflawni. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd esbonio pam na chafodd y Pwyllgor yr wybodaeth hon fel rhan o’i thystiolaeth ysgrifenedig i ni ar 21/12/2022 fel y gofynnwyd.63

Argymhelliad 19. Rhaid i Lywodraeth Cymru, o fewn chwe mis, ddatblygu cynllun gweithredu i ddileu tlodi plant yng Nghymru. Rhaid i’r cynllun gweithredu nodi camau gweithredu clir, wedi’u costio, y gellir eu cyflawni, y gellir eu mesur ac ag amserlen benodol, sydd o fewn cwmpas pwerau Llywodraeth Cymru i ddileu tlodi plant yng Nghymru.....64

1. Cefndir

Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24

1. Cyhoeddwyd Cyllideb Ddrafft 2023-24 ar 13 Rhagfyr 2022. Mae'n nodi cynlluniau gwariant refeniw a chyfalaf ar gyfer y cyfnod o fis Ebrill 2023 i fis Mawrth 2024, a dyraniadau cynllunio diwygiedig ar gyfer 2024-25.

2. Is-deitl Naratif Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru yw 'Cyllideb mewn Cyfnod Anodd'. Yn ei rhagair, mae'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol yn dweud mai'r Gyllideb Ddrafft hon yw "un o'r rhai anoddaf yr ydym erioed wedi'i gwneud" ac mae'n cyfeirio at "storm berffaith o bwysau economaidd a chyllidebol". Mae hi'n ychwanegu:

Nid yw ein setliad ariannu, a ddaw'n bennaf gan Lywodraeth y DU, yn ddigonol i ddygymod â'r holl bwysau eithriadol sy'n wynebu Cymru, heb sôn am gyflawni ein blaenoriaethau yn 2023-24.¹

3. Mae'r naratif yn mynd ymlaen i nodi bod Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio "ar dair conglaen fuddsoddi allweddol:

- Diogelu gwasanaethau cyhoeddus rheng flaen a'n huchelgeisiau ar gyfer y dyfodol;
- Parhau i ddarparu cymorth i'r rhai y mae'r argyfyngau a wynebwn yn effeithio arnynt fwyaf; a
- Chefnogi ein heconomi drwy gyfnod dirwasgiad."²

4. Yn fwy penodol, mae naratif y gyllideb yn nodi rhai meysydd polisi sy'n uniongyrchol berthnasol i'r Pwyllgor hwn ymhlith blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24, sef:

- iechyd meddwl;
- prydau ysgol am ddim; a

¹ Llywodraeth Cymru, '[Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24: Cyllideb mewn Cyfnod Anodd](#)', Rhagfyr 2022, tudalen 1

² Llywodraeth Cymru, '[Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24: Cyllideb mewn Cyfnod Anodd](#)', Rhagfyr 2022, tudalen 1

- chyllid ar gyfer ysgolion (cyflwyno'r cwricwlwm newydd a diwygiadau i Anghenion Dysgu Ychwanegol, hyfforddiant athrawon a chymorth ar ôl y pandemig i ddysgwyr), y cynllun peilot incwm sylfaenol ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal, a phrentisiaethau.³

Ein dull o graffu ar y Gyllideb Ddrafft

Casglu tystiolaeth

5. Ar 8 Tachwedd 2022, fe ysgrifennom i ofyn am dystiolaeth ysgrifenedig gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg,⁴ at y Gweinidogion Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol,⁵ ac at y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol.⁶ Daeth y dystiolaeth ysgrifenedig i law ar 19 Rhagfyr, 21 Rhagfyr ac 19 Rhagfyr yn y drefn honno.
6. Cawsom dystiolaeth lafar gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg ar 11 Ionawr 2023 a chan y Gweinidogion Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 18 Ionawr 2023.
7. Rydym yn gwerthfawrogi bod yr amserlen ar gyfer craffu ar y Gyllideb Ddrafft yn heriol i Lywodraeth Cymru ac i'r Senedd fel ei gilydd. Rydym yn ddiolchgar i'r Gweinidogion a swyddogion am eu cefnogaeth drwy gydol y broses graffu.

Cefnogaeth gan y Pwyllgor Cyllid

8. Y Pwyllgor Cyllid sy'n arwain gwaith pwyllgorau'r Senedd o graffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru. Eleni, i gefnogi pwyllgorau polisi'r Senedd, fe wnaeth y Pwyllgor Cyllid ymgysylltu â rhanddeiliaid, aelodau o'r cyhoedd, a Senedd Ieuenticid Cymru. Hefyd, cynhaliodd ymgynghoriad ar y Gyllideb Ddrafft, a ddaeth i ben ar xx Tachwedd 2022. Ochr yn ochr â'i waith ymgysylltu ac ymgynghori, roedd y Pwyllgor Cyllid mewn cysylltiad rheolaidd â Llywodraeth

³ Llywodraeth Cymru, '[Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24: Cyllideb mewn Cyfnod Anodd](#)', Rhagfyr 2022, tudalen 18-24

⁴ Senedd Cymru, '[Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at Weinidog y Gymraeg ac Addysg](#)', 08/11/2022

⁵ Senedd Cymru, '[Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at y Gweinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol, y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant](#)', 08/11/2022

⁶ Senedd Cymru, '[Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol](#)', 08/11/2022

Cymru i godi pryderon neu ofyn am eglurhad ynghylch materion sy'n berthnasol i waith craffu'r Senedd ar y Gyllideb Ddrafft.⁷

9. Hoffem ddiolch i aelodau'r Pwyllgor Cyllid, a'r swyddogion sy'n cefnogi'r Pwyllgor, am eu gwaith, sydd wedi bwydo'n uniongyrchol i'n gwaith craffu ni ar y Gyllideb Ddrafft.

Craffu ar y Gyllideb drwy lens ein Strategaeth ar gyfer y Chweched Senedd

Blaenoriaethau polisi

10. Fe drafodom ni ein dull o graffu ar y Gyllideb ar 6 Hydref 2022. Fe ystyriom ni:

- y gwaith yr oedd y Pwyllgor Cyllid wedi'i wneud i nodi blaenoriaethau cyllidebol drwy ei waith craffu, ymgysylltu ac ymgynghori;
- materion yn codi o waith ein pwyllgor dros y flwyddyn flaenorol, gan gynnwys pryderon y gwnaeth ein rhanddeiliaid eu codi gyda ni;
- materion yn codi o etholaethau a rhanbarthau aelodau unigol y Pwyllgor; ac
- ein Strategaeth ar gyfer y Chweched Senedd.⁸

11. Fe benderfynom ni gwneud gwaith craffu manwl ar Gyllideb Ddrafft gyfan Llywodraeth Cymru fel y mae'n berthnasol i'n cylch gwaith. Fe gytunom ni hefyd i roi sylw arbennig i effaith y gyllideb ar hawliau plant; iechyd meddwl a chorfforol plant a phobl ifanc; ariannu ysgolion; y gweithlu addysg; ac, yn hollbwysig, effaith yr argyfwng costau byw ar blant a phobl ifanc (gan gynnwys y rhaglen prydau ysgol am ddim).

Gweithio ar y cyd

12. Rydym wedi ymrwymo yn ein Strategaeth ar gyfer y Chweched Senedd i weithio gyda phwyllgorau eraill y Senedd mewn meysydd o ddiddordeb cyffredin a lle y bydd hyn yn gwella'r gwaith craffu. Felly, roeddem yn awyddus i weithio ar y cyd drwy gydol y broses o graffu ar Gyllideb Ddrafft 2023-24. Ar 23 Tachwedd 2022, fe ysgrifennom ni⁹ at gadeiryddion pwyllgorau eraill y Senedd i gynnig cydweithio yn y ffyrdd a ganlyn lle bo hynny'n berthnasol:

⁷ Mae rhagor o fanylion am waith craffu'r Pwyllgor Cyllid ar Gyllideb Ddrafft 2023-24, gan gynnwys adroddiadau ymgysylltu, ymatebion i'r ymgynghoriad a gohebiaeth at Lywodraeth Cymru a chan Lywodraeth Cymru, ar gael ar wefan y Senedd: Senedd Cymru, '[Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24](#)'

⁸ Senedd Cymru, '[Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: Strategaeth y Chweched Senedd](#)', 16/12/2021

⁹ Senedd Cymru, '[Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at Gadeiryddion Pwyllgorau](#)', 23/11/2022

- Rhannu'r dystiolaeth ysgrifenedig a gawn gan Weinidogion Llywodraeth Cymru a deunydd briffio y mae swyddogion y Senedd yn ei baratoi rhwng pwyllgorau.
- Annog swyddogion y Senedd i ymchwilio i gyfleoedd ar gyfer argymhellion ar y cyd gan bwyllgorau lle mae gan ddau bwyllgor neu fwy farn debyg ar faterion sydd o ddiddordeb i'r naill ochr a'r llall.
- Tynnu sylw at themâu trawsbynciol a allai fod yn berthnasol i bwyllgorau eraill yn ogystal â'n pwyllgor ni: 'llinell sylfaen ddiwygiedig' Llywodraeth Cymru fel y'i gelwir (pa mor glir a chywir y mae'n cyflwyno newidiadau mewn gwariant o un flwyddyn i'r llall), ac i ba raddau y mae Llywodraeth Cymru yn ystyried effaith ei Chyllideb Ddrafft ar wahanol grwpiau o bobl.

13. Fe ystyriom ni hefyd strategaeth Cymraeg 2050 yng nghyd-destun canlyniadau Cyfrifiad 2021 ar gais y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol,¹⁰ sef y pwyllgor yr ydym yn cynnal ymchwiliad ar y cyd ag ef i Gynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg.

¹⁰ Senedd Cymru, '**Llythyr gan y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol**', 09/12/2022

2. Tryloywder

Hawliau plant

14. I sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael eu cyfran deg o gyllid, dylai Llywodraeth Cymru wneud pob ymdrech i'w gwneud mor glir â phosibl yn ei Chyllideb Ddrafft faint o adnoddau sy'n cael eu dyrannu ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 Llywodraeth Cymru yn gosod dyletswydd ar Lywodraeth Cymru i roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wrth arfer unrhyw un o'i swyddogaethau – gan gynnwys wrth lunio Cyllideb Ddrafft. Mae Erthygl 4 o'r confensiwn hwnnw'n nodi:

*"States Parties shall undertake all appropriate legislative, administrative, and other measures for the implementation of the rights recognized in the present Convention. With regard to economic, social and cultural rights, States Parties **shall undertake such measures to the maximum extent of their available resources** and, where needed, within the framework of international co-operation." [Ein pwyslais ni.]*

15. Mae Llywodraeth Cymru yn nodi yn ei Chynllun Hawliau Plant 2021 y bydd yn dangos ei bod yn cyflawni ei dyletswyddau fel y'u nodir ym Mesur 2011 drwy lunio Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ar gyfer unrhyw benderfyniadau sy'n effeithio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ar blant.¹¹ Fodd bynnag, ni chyhoeddodd Llywodraeth Cymru Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant mewn perthynas â'i Chyllideb Ddrafft 2023-24. Yn lle hynny, mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio Asesiad Effaith Integredig Strategol i nodi effaith y gyllideb ar wahanol grwpiau o bobl.¹²

16. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant mewn perthynas â'i Chyllideb Ddrafft ers i Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 ddod i rym. O ganlyniad, mae pwyllgorau'r Senedd wedi galw'n gyson am Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ar gyfer Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ers dros ddegawd. Er enghraifft, mewn llythyr yn nodi barn y Pwyllgor ynghylch Cyllideb Ddrafft 2014-15, ysgrifennodd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc:

¹¹ Llywodraeth Cymru, 'Cynllun Hawliau Plant 2021', Rhagfyr 2021, tudalen 9

¹² Llywodraeth Cymru, '**Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24: Cyllideb mewn Cyfnod Anodd**', Rhagfyr 2022, tudalennau 27-39

*"Ysgrifennodd y Pwyllgor atoch ym mis Gorffennaf 2013 yn gofyn am gopi o'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant (CRIA) cyn y cyfarfod i graffu ar y Gyllideb Ddrafft. Ni chawsom gopi o'r Asesiad gennych. Ar sail eich tystiolaeth ar lafar, roedd yn anodd i'r Pwyllgor ganfod a oedd dadansoddiad o'r fath wedi'i wneud neu beidio."*¹³

17. Yn ein hadroddiad ar Gyllideb Ddrafft 2022-23, fe argymhellom ni'n benodol bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant i ddangos sut mae hawliau plant yn bwydo i'r broses gyllidebu.¹⁴ Gwrthododd Llywodraeth Cymru sylwedd yr argymhelliad hwn. Mae ei hymateb i'n hadroddiad yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn credu bod ei Hasesiad Effaith Integredig Strategol "yn amlinellu'r dystiolaeth gyd-destunol sydd wedi cefnogi ein penderfyniadau gwariant, gan gynnwys astudiaethau achos manylach ar effeithiau penderfyniadau gwariant penodol sy'n cynnwys yr effaith ar blant a phobl ifanc".¹⁵

18. Nid ni yw'r unig rai sy'n galw ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ar gyfer ei Chyllideb Ddrafft. Yn eu tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor Cyllid, ysgrifennodd yr Arsyllfa ar Hawliau Dynol Plant a Chanolfan Gyfreithiol y Plant Cymru:

*"Evidence given to the Senedd Children and Young People and Education Committee on the Welsh Government Draft Budget 2022-2023 (January 13th 2022)5 confirms that (once again) Ministers have failed to implement their own policy as set out in the Scheme and apply a comprehensive CRIA to the draft budget."*¹⁶

19. Mewn gohebiaeth ddiweddar i ni, ysgrifennodd Comisiynydd Plant Cymru ei bod hi a'i rhagflaenydd wedi galw droeon am asesiad cynhwysfawr o'r effaith ar hawliau plant i lywio'r broses o wneud penderfyniadau ynghylch y gyllideb ddrafft. Mae hi'n nodi bod Asesiad Effaith Integredig Strategol Llywodraeth Cymru yn cyfeirio at yr effaith negyddol ar blant a phobl ifanc yn sgil effeithiau negyddol ar wasanaethau cyhoeddus. Fodd bynnag, daw i'r casgliad y byddai Asesiad manwl o'r Effaith ar Hawliau Plant, a oedd wedi ystyried pob penderfyniad perthnasol

¹³ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 'Llythyr at y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi a'r Dirprwy Weinidog Trechu Tlodi', 29/10/2013, tudalen 4

¹⁴ Senedd Cymru, 'Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2022-2023', Chwefror 2022, tudalen 24

¹⁵ Llywodraeth Cymru, 'Ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion yn adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2022-23', Mawrth 2022

¹⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, WGDB 23-24.16 Arsyllfa ar Hawliau Dynol Plant a Chanolfan Gyfreithiol y Plant Cymru

yn erbyn erthygl benodol Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, wedi cynnig y manylder yr oedd ei angen arnyh nhw ac eraill i ddadansoddi'r ystyriaeth a wnaed.¹⁷

20. Fe bwysom ni ar y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch pam bod cymaint o wahaniaeth barn ynghylch a ddylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ar gyfer ei Chyllideb Ddrafft. Dywedodd y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol wrthym ei bod yn parhau i gredu bod angen dull integredig o gynnal asesiadau effaith sy'n rhoi gwell dealltwriaeth o effaith penderfyniadau gwariant, fel effeithiau croestoriadol ac anfwriadol gwariant, i wneud y cyllid sydd ar gael mor effeithiol â phosibl. Pwysleisiodd bwysigrwydd peidio â gwneud penderfyniadau am blant ar eu pen eu hunain, ond ochr yn ochr â rhyng-gysylltiadau eraill. Fodd bynnag, dywedodd bod ganddi ymrwymiad i gadw llygad barhaus ar y ffordd o fynd i'r afael â'r mater hwn, ac y byddai'n hapus i ymchwilio i ffyrdd gwell o adlewyrchu hawliau plant fel rhan o'r gwaith hwn. Cynigiodd y Dirprwy Weinidog friff technegol inni ar yr asesiad effaith integredig, ac fe groesawom ni hynny.¹⁸

Yr wybodaeth a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru am ei Chyllideb Ddrafft

21. Wrth graffu, rydym yn edrych ar y Gyllideb Ddrafft ei hun a pha bynnag ddogfennaeth ategol a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru i ystyried effaith dyraniadau cyllid arfaethedig Llywodraeth Cymru ar blant, pobl ifanc ac addysg.

22. Rydym hefyd yn dibynnu ar y dystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd inni gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'i dirprwyon; Gweinidog y Gymraeg ac Addysg; a'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol eleni hefyd.¹⁹ Mae'r dystiolaeth ysgrifenedig yn rhoi manylion hollbwysig sydd eu hangen arnom i gyflawni ein rôl graffu, yn enwedig yn absenoldeb Asesiad trylwyr o'r Effaith ar Hawliau Plant ar gyfer y Gyllideb Ddrafft yn ei chyfanrwydd.

23. Fe ofynnem ni'n benodol i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ba raddau yr oedd yn hyderus bod y Gyllideb Ddrafft fel y mae'n berthnasol i'w chylch gwaith a'r ddogfennaeth ategol – gan gynnwys y dystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynodd i ni – yn rhoi darlun llawn o'r adnoddau sy'n cael eu dyrannu i blant a phobl ifanc. Dywedodd y Gweinidog wrthym fod y rhan fwyaf o'i Phrif Grŵp Gwariant yn mynd yn uniongyrchol i'r byrddau iechyd. Mae Llywodraeth Cymru yn "gofyn i'r byrddau iechyd wneud penderfyniadau ar sail anghenion eu poblogaeth". Mae Llywodraeth Cymru yn nodi canllawiau a blaenoriaethau i'r byrddau

¹⁷ Comisiynydd Plant Cymru, '[Parthed: Gwaith craffu dilynol blynyddol](#)', 12/01/2023

¹⁸ [Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18/01/2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 28](#)

¹⁹ [Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18/01/2023, Cofnod y Trafodion, paragraffau 5-8](#)

iechyd eu dilyn, ond wrth wneud hynny nid yw'n gwahaniaethu ar gyfer plant a phobl ifanc o fewn y canllawiau hynny:

*"We don't differentiate for children within that; we don't differentiate for disabled people within that either. So, if you start going down that route, the point is that we could go on for a long, long time, and it's complicated enough as it is."*²⁰

24. Yn ein cais am dystiolaeth ysgrifenedig, fe ofynnem ni i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'i dirprwyon am newidiadau rhwng Cyllideb Ddrafft 2023-24 2023-24 o gymharu â Chyllideb Ddrafft 2022-23 a'r Gyllideb Atodol gyntaf ym mis Mehefin 2022, ochr yn ochr â dyraniadau dangosol ar gyfer 2024-25. Fe ofynnem ni i'r Gweinidog pam nad oedd yr wybodaeth honno wedi cael ei darparu. Esboniodd un o swyddogion Llywodraeth Cymru:

*"So, I think in the evidence paper, we have shown, for each of the key BELs, the budget expenditure lines, relevant, the movement between last year's budget and the draft budget in terms of the final budget. We haven't shown the movements specifically in-year in terms of supplementary budgets, but by definition, they're part of that movement, and I think there's a degree of explanation there. Also in the annex, we have shown the 2024-25 budget movements as well. So, we've aimed to try and cover it in total, so hopefully it is all in there."*²¹

Ein barn ni

25. Unwaith eto, rydym yn siomedig iawn nad yw Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Asesiad cynhwysfawr o'r Effaith ar Hawliau Plant i gyd-fynd â'i Chyllideb Ddrafft. Clywsom eto eleni – yn groes i farn y Comisiynydd Plant, arbenigwyr cyfreithiol hawliau plant, ac yn wir Cynllun Hawliau Plant Llywodraeth Cymru ei hun – fod Llywodraeth Cymru yn credu bod ei Hasesiad Effaith Integredig Strategol yn ffordd fwy effeithiol o ymgorffori effeithiau'r Gyllideb Ddrafft ar wahanol grwpiau o bobl.

26. Mae hyn yn colli'r pwynt. Dylai effeithiau'r gyllideb ar grwpiau eraill o bobl gael eu hystyried yn llawn gan Lywodraeth Cymru wrth lunio'r Gyllideb Ddrafft. Gall yr Asesiad Effaith Integredig Strategol fod yn ffordd briodol o ddogfennu'r effeithiau hynny. Fodd bynnag, nid yw

²⁰ Cyhoeddir y cyfan yma: Senedd Cymru, 'Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24'

²¹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18/01/2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 12

hyn yn golygu nad oes angen Asesiad pwrpasol o'r Effaith ar Hawliau Plant. Mae dyletswydd gyfreithiol benodol ar Lywodraeth Cymru i roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wrth lunio Cyllideb Ddrafft. Mae Llywodraeth Cymru ei hun wedi nodi mai drwy Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant "y disgwylir i swyddogion helpu Gweinidogion Cymru i sicrhau y cyflawnir y ddyletswydd sylw dyledus".²²

27. Nid ydym wedi ein hargyhoeddi o gwbl gan ddadleuon Llywodraeth Cymru nad oes angen iddi gydymffurfio â'i deddfwriaeth a'i chanllawiau ei hun. Eleni, fel y gwnaethom y llynedd, ac fel y gwnaeth y pwyllgorau a'n rhagflaenodd am y rhan orau o ddegawd cyn hynny, rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cynnal ac yn cyhoeddi Asesiad cynhwysfawr o'r Effaith ar Hawliau Plant ar gyfer ei Chyllideb Ddrafft.

Recommendation 1. Rhaid i Lywodraeth Cymru lunio Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ar gyfer ei Chyllideb Ddrafft i ddangos ei bod yn cydymffurfio â Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, fel y nodir yn ei Chynllun Hawliau Plant ei hun.

28. Nid yw'r rhan fwyaf o gyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc yn gyllid sydd wedi'i neilltuo. Rhoddir cyllid i'r byrddau iechyd a'r awdurdodau lleol ac, yn amodol ar unrhyw ganllawiau neu flaenoriaethau ychwanegol a nodir gan Lywodraeth Cymru, mater i'r awdurdodau unigol hynny yw gwario'r cyllid hwnnw ar sail anghenion lleol. Rydym yn cydnabod bod hyn yn ei gwneud yn fwy cymhleth i Lywodraeth Cymru fonitro gwariant y gwasanaethau cyhoeddus hynny ar blant a phobl ifanc yn benodol fel is-set o'r boblogaeth ehangach. Yn y pen draw, rydym yn derbyn y gallai fod yn amhosibl i Lywodraeth Cymru roi cyfrif am bob £1 o wariant cyhoeddus sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc.

29. Fodd bynnag, rydym yn disgwyl i'r Gyllideb Ddrafft a'i dogfennaeth ategol nodi mewn ffordd glir a thryloyw lle mae Llywodraeth Cymru yn cynnig newidiadau sylweddol i gyllid gwasanaethau cyhoeddus o un flwyddyn i'r llall. Yn anffodus, nid yw Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi'r fath fanylder fel mater o drefn. Gofynnwn felly am lawer o wybodaeth ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru cyn ein sesiynau craffu llafar i ategu'r hyn a gyhoeddwyd eisoes. Rydym yn cydnabod ei bod yn cymryd llawer o amser i dynnu hyn ynghyd, a hynny mewn cyfnod o'r flwyddyn lle mae pwysau mawr ar amser, ac rydym yn ddiolchgar i'r Gweinidogion, eu dirprwyon a'u swyddogion am eu cefnogaeth.

30. Yn anffodus, nid oedd yr wybodaeth ysgrifenedig a gawsom gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'i dirprwyon mor glir, tryloyw a manwl ag yr oeddem wedi'i obeithio. Roedd y diffyg manylder cymharol yn y dystiolaeth ysgrifenedig yn arbennig o

²² Llywodraeth Cymru, 'Cynllun Hawliau Plant 2021', Rhagfyr 2021

nodedig o ystyried bod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ei dirprwyon a'i swyddogion wedi gallu ymateb i ni yn llawer manylach yn ystod sesiynau craffu llafar. Rydym yn credu ei bod yn drueni na chawsom yr wybodaeth ychwanegol hon yn y dystiolaeth ysgrifenedig. Pe byddem wedi'i chael, gellid fod wedi canolbwyntio mwy o amser yn ystod ein trafodaethau ar faterion polisi o sylwedd, yn hytrach nag ar egluro manylion cyllidebol. Rydym felly'n argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ymrwmo i weithio ar draws adrannau i fanteisio ar arfer gorau presennol yn yr adrannau hyn, gyda'r nod o wella cysondeb y dystiolaeth ysgrifenedig y mae'n ei rhoi i Bwyllgorau'r Senedd.

Recommendation 2. Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu gweithgor trawsadrannol i wella ansawdd a chysondeb y dystiolaeth ysgrifenedig y mae'n ei rhoi i Bwyllgorau'r Senedd i gefnogi'r broses o graffu ar y Gyllideb Ddrafft, gan fanteisio ar yr arfer da a geir eisoes ar draws adrannau'r llywodraeth.

3. Addysg a'r Gymraeg

Prif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg yn ei gyfanrwydd

Crynodeb o'r newidiadau allweddol

Ar £2.647 biliwn, mae'r Prif Grŵp Gwariant Addysg (adnoddau a chyfalaf gyda'i gilydd) £76 miliwn yn uwch yn 2023-24 nag yn 2022-23. Mae hyn yn gynydd o 3.0 y cant mewn termau arian parod ac yn ostyngiad o 0.3 y cant mewn termau real.²³

Mae cyllid adnoddau addysg yn cynyddu £60 miliwn i £2.275 biliwn (cynydd o 2.7 y cant mewn termau arian parod, gostyngiad o 0.5 y cant mewn termau real) rhwng 2022-23 a 2023-24. Roedd £43 miliwn o'r cynnydd hwn eisoes wedi'i gynllunio adeg pennu'r gyllideb ddangosol ar gyfer 2023-24 ym mis Mawrth 2022.

Mae cyllid cyfalaf addysg yn cynyddu £16 miliwn i £373 miliwn (cynydd o 4.6 y cant mewn termau arian parod, cynnydd o 1.3 y cant mewn termau real) rhwng 2022-23 a 2023-24. Roedd y cynnydd hwn o £16 miliwn eisoes wedi'i gynllunio adeg pennu'r gyllideb ddangosol ar gyfer 2023-24 ym mis Mawrth 2022.

Materion cyllidebol trawsbynciol

31. Yn ei ddatganiad agoriadol, pwysleisiodd y Gweinidog y Gymraeg ac Addysg negeseuon ehangach Llywodraeth Cymru: mae'r Gyllideb Ddrafft hon "wedi bod yn un o'r cyllidebau anoddaf ers datganoli". Dywedodd y Gweinidog wrthym, yn erbyn cefndir o bwysau chwyddiant a chostau byw yn deillio o'r rhyfel yn Wcráin ac effaith barhaus y pandemig, nad oedd y setliad cyllid gan Lywodraeth y DU yn ddigonol i ddiwallu'r pwysau presennol yn y gyllideb, heb sôn am gynlluniau ar gyfer y dyfodol. Cadarnhaodd i ni nad oes ffrwd ariannu COVID gan Lywodraeth y DU bellach, ac nad oes cronfa ganolog wrth gefn ar gyfer COVID gan Lywodraeth Cymru ychwaith. Dywedodd mai ei brif her fu cynnal lefel y cyllid, a bod hyn wedi bod yn gyflawniad yn ei hun. Yn y cyd-destun hwnnw, yr egwyddorion sy'n sail i'r Gyllideb Ddrafft yw

²³ Mae'n debygol nad yw'r ffigurau termau real hyn yn rhoi amcangyfrif llawn o effaith chwyddiant. Dim ond 3.23 y cant (Tachwedd 2022) yw'r datchwyddydd cynnyrch domestig gros, a ddefnyddir i gyfrifo newidiadau mewn termau real yng nghyllid y sector cyhoeddus. Mae hyn yn isel iawn o gymharu â chwyddiant fel y caiff ei fesur gan y Mynegai Prisiau Defnyddwyr, y disgwylir iddo fod tua 7 i 8 y cant y flwyddyn nesaf.

blaenoriaethu cyllid ar gyfer gwasanaethau rheng flaen a chefnogi grwpiau agored i niwed gydag unrhyw gymorth ychwanegol sydd ei angen arnynt.²⁴

Pwysau costau byw ar ddysgwyr a theuluoedd

32. Mae Llywodraeth Cymru yn dadlau bod pwysau costau byw yn cael effaith anghymesur ar rieni sengl a theuluoedd mwy â phlant, ymhlith eraill.²⁵ Mae'r polisiau allweddol y mae Llywodraeth Cymru wedi'u hamlinellu i leddfu'r baich ar blant a phobl ifanc a'u teuluoedd wedi'u nodi isod.

Prydau ysgol am ddim (gan gynnwys yn ystod gwyliau ysgol)

33. Mae prydau ysgol am ddim i bob plentyn ysgol gynradd erbyn 2024 yn ymrwymiad allweddol yng Nghytundeb Cydweithio Llywodraeth Cymru gyda Phlaid Cymru.²⁶ Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi dyrannu £200 miliwn o gyllid adnoddau dros dair blynedd i gefnogi'r gwaith o gyflwyno hyn (£40 miliwn yn 2022-23, £70 miliwn yn 2023-24 a £90 miliwn yn 2024-25). Dywedodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg wrthym:

"Our principle in relation to that policy has, obviously, been to maximise the roll-out, really, as quickly as possible, given the cost-of-living pressures that families are under. There's been an increasing eligibility for free school meals, but we also all know that there is a large cohort of families who don't qualify, but are finding it very, very hard. So, that's been a top priority for us to do that as quickly as possible."²⁷

34. Ym mis Ebrill 2020, fe wnaeth Llywodraeth Cymru warantu prydau ysgol am ddim i deuluoedd cymwys yn ystod gwyliau ysgol. Mae prydau ysgol am ddim wedi'u darparu yn ystod gwyliau ysgol ers hynny ond roeddent i fod i ddod i ben ar ôl haf 2022. Fodd bynnag, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ym mis Medi 2022²⁸ y byddent yn parhau tan ddiwedd hanner tymor mis Chwefror 2023, a chlustnodwyd £11 miliwn ar gyfer hyn. Cafodd hyn ei ganfod o danwariant yng nghyllideb 2022-23 ar gyfer cyflwyno prydau ysgol am ddim i bob disgybl ysgol gynradd. Fodd bynnag, nid oes cyllid o'r fath wedi'i ddyrannu i Gyllideb Ddrafft 2023-24, sy'n

²⁴ **Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11/01/2023, Cofnod y Trafodion, paragraffau 13-14**

²⁵ Llywodraeth Cymru, '**Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24: Cyllideb mewn Cyfnod Anodd**', Rhagfyr 2022, tudalen 31

²⁶ Llywodraeth Cymru, '**Prydau Ysgol am ddim i holl blant Ysgolion Cynradd (UPFSM)**', Gorffennaf 2022

²⁷ **Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11/01/2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 20**

²⁸ Llywodraeth Cymru, '**Prydau ysgol am ddim ar gyfer teuluoedd ar incwm isel i barhau yn ystod y gwyliau**', 20/09/2022

awgrymu y bydd darpariaeth prydau ysgol am ddim yn ystod y gwyliau yn dod i ben ar ôl hanner tymor mis Chwefror. Fe ofynnem ni am gadarnhad gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg.

35. Eglurodd ei fod yn gallu ariannu ymestyn y fenter prydau ysgol am ddim yn ystod gwyliau ysgol i fis Chwefror 2023 oherwydd tanwariant mewn cyllideb arall (yn yr achos hwn, cyflwyno prydau ysgol am ddim i bob disgybl ysgol gynradd). Cadarnhaodd y Gweinidog wrthym ei fod ef a'i swyddogion wrthi'n trafod a fyddai modd dod o hyd i gyllid eto o gyllidebau eraill, gyda'r bwriad o ymestyn prydau ysgol am ddim yn ystod gwyliau ysgol y tu hwnt i fis Chwefror 2023.²⁹

Brecwast am ddim - y peilot Blwyddyn 7

36. Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n cynnal cynllun peilot o raglen brecwast am ddim i ddisgyblion Blwyddyn 7. Mae 45 o ysgolion uwchradd yn rhan o'r peilot a ddechreuodd yn 2020. Cadarnhaodd Gweinidog y Gymraeg a Addysg y bydd y peilot yn dod i ben ar ddiwedd blwyddyn academiaidd 2022-23. Mae £391,000 o gostau y cynllun peilot hwnnw yn dod o fewn blwyddyn ariannol 2023-24. Aeth y Gweinidog ymlaen i ymrwymo i rannu gyda ni werthusiad dros dro Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru o'r cynllun peilot hwnnw pan gaiff ei gwblhau ym mis Chwefror 2023.³⁰

37. Bydd disgyblion Blwyddyn 7 sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn parhau i gael lwfans ychwanegol o £1 y dydd i'w ddefnyddio yn agos at ddechrau'r diwrnod ar ôl i'r cynllun peilot brecwast am ddim i bawb ddod i ben. Yn yr un modd, bydd cynllun Brecwast am Ddim mewn Ysgolion Cynradd Llywodraeth Cymru yn parhau.

Hanfodion Ysgol ('Grant Datblygu Disgyblion – Mynediad' gynt)

38. Gall plant y mae eu teuluoedd ar incwm is ac sy'n gymwys am fudd-daliadau penodol wneud cais am grant o £225 fesul dysgwr, neu £300 i'r dysgwyr hynny sy'n dechrau blwyddyn 7, a hynny ar gyfer costau gwisg ysgol a chostau eraill sy'n gysylltiedig â'r ysgol. Yn 2022-23, rhoddodd Llywodraeth Cymru £100 ychwanegol fel taliad untro i deuluoedd cymwys.

39. Grant Datblygu Disgyblion – Mynediad oedd enw blaenorol y cynllun hwn, a bydd yn cael ei ailfrandio fel 'Hanfodion Ysgol' fel rhan o ymgyrch gyfathrebu i annog teuluoedd cymwys i gofrestru. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried na fydd bellach yn rhaid i rieni mewn ysgolion cynradd wneud cais am brydau ysgol am ddim - a oedd yn borth ar gyfer bod yn

²⁹ [Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11/01/2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 35](#)

³⁰ [Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11/01/2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 38](#)

gymwys ar gyfer Grant Datblygu Disgyblion – Mynediad - o ganlyniad i gyflwyno pryduau ysgol cynradd am ddim i bawb.

40. Mae cyllid ar gyfer Grant Datblygu Disgyblion – Mynediad/Hanfodion Ysgol yn dod o fewn y cyllid a ddyrannwyd ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion (gweler isod). Er bod Gweinidog y Gymraeg ac Addysg yn nodi yn ei bapur bod £13.6 miliwn wedi'i ddyrannu i'r rhaglen Hanfodion Ysgol ar gyfer 2023-24,³¹ nid yw'n glir sut mae hyn yn cymharu â chyllid ar gyfer Hanfodion Ysgol yn 2022-23.

41. Mae llinell gyllideb y Grant Datblygu Disgyblion wedi gostwng o £147.6 miliwn yn y gyllideb fwyaf diweddar ar gyfer 2022-23 (y Gyllideb Atodol gyntaf), i £142.5 miliwn yng Nghyllideb Ddrafft 2023-24. Pan wnaethom ni ofyn i'r Gweinidog egluro pam, nododd fod cyllid ar gyfer Hanfodion Ysgol yn lleihau:

So, the budget hasn't gone down by £5 million; one item in the budget has gone down by £5 million, but the net increase in the budget is the £9 million figure. So, the budget, taken as a whole, is £9 million higher this year than it was last year. The £5 million figure, incidentally, is referable to that one-off intervention that we made last year to temporarily increase the PDG access element of the funding.³²

42. Wrth nodi cynnydd cyffredinol o £9 miliwn i linell gyllideb y Grant Datblygu Disgyblion, gallai'r Gweinidog fod yn cyfeirio at y newid i'r hyn yr oedd Llywodraeth Cymru yn bwriadu ei wario yn 2023-24 pan osododd y gyllideb ddangosol ar gyfer 2023-24 ym mis Mawrth 2022, yn hytrach na lefel wirioneddol y gyllideb yn 2022-23.

Y Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA) a grantiau cymorth myfyrwyr eraill

LCA

43. Yn ein hadroddiad ar Gyllideb Ddrafft 2022-23, fe nodom ni ein pryderon bod gwerth y grant LCA wedi gostwng yn sylweddol ers iddo gael ei gyflwyno gyntaf yn 2004:

Pe bai uchafswm y dyfarniad LCA wedi dilyn chwyddiant, byddai wedi bod yn werth £47.10 yn 2020. O gofio nad yw'r trothwy cymhwysedd incwm wedi'i ddiwygio chwaith ers 2011-12, sy'n golygu bod llai o ddysgwyr yn gymwys i'w


³¹ Llywodraeth Cymru, 'Llythyr gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg', 19/12/2022, tudalen 16

³² **Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11/01/2023**. Cofnod y Trafodion, paragraff 42

gael bob blwyddyn, mae'r LCA, mewn gwirionedd, wedi bod yn destun toriad mewn termau real bob blwyddyn ers ei gyflwyno.³³

44. Yn ein hadroddiad, fe ofynnem ni i Lywodraeth Cymru adolygu'r dyfarniad LCA a'r trothwy cymhwysedd incwm. Atebodd Llywodraeth Cymru fod swyddogion wedi "gwneud gwaith cwmpasu cychwynnol" i ganfod y gyllideb ychwanegol sydd ei hangen i gynyddu'r dyfarniad a throthwyon incwm aelwydydd i gyd-fynd ag argymhellion adroddiad Sefydliad Bevan, 'Learning a living, better support for post 16 learners', ym mis Chwefror 2020.³⁴ Cyfeiriodd Llywodraeth Cymru hefyd at adolygiad llawn o'r LCA, a gynhaliwyd yn 2014, a dywedodd fod swyddogion yn parhau i weithio "i ddeall beth fyddai cyfradd y lwfans a'r trothwyon incwm heddiw". Fe ofynnem ni hefyd i Lywodraeth Cymru egluro effaith y diffyg newidiadau i'r trothwy incwm LCA ar gyfran y dysgwyr sy'n gallu hawlio'r LCA. Ei hymateb oedd:

Graff yn dangos nifer y ceisiadau LCA o gymharu â dysgwyr 16-18 oed. Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, 'Ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2022-2023,' Mawrth 2022, tudalen 24



³³ Senedd Cymru, 'Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2022-2023', Chwefror 2022, tudalen 54.

³⁴ Sefydliad Bevan, 'Learning a living, better support for post 16 learners', Chwefror 2020

45. Mae'r dyraniad ar gyfer LCA yng Nghyllideb Ddrafft 2023-24 wedi'i "gynnal", gyda chyllideb o £17.4 miliwn ar gyfer myfyrwyr. Fe ofynnwyd ni i Weinidog y Gymraeg ac Addysg egluro sut yr aeth ati i gyfrifo ac asesu'r galw posibl gan ddysgwyr am y LCA, ac a yw'n ystyried unrhyw newidiadau i lefel y cymorth. Dywedodd wrthym y bu'n 'heriol' dim ond cynnal lefelau cyllid ar draws y gyllideb. Dywedodd fod yn ymrwymiad yn y rhaglen lywodraethu i gynnal y cyllid, bod hynny wedi digwydd, a'i fod yn falch bod hynny wedi'i gyflawni.³⁵

46. Dywedodd y Gweinidog wrthym ei fod wedi canolbwyntio ar ei gwneud mor hawdd â phosibl i'r rhai sy'n gymwys i hawlio'r LCA. Mae'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i greu plattform ar-lein i'w gwneud yn haws i wneud cais. Fe wnaeth y Gweinidog atgoffa'r Pwyllgor hefyd fod pawb sy'n gadael gofal yn gymwys ar gyfer y LCA.

47. Aeth y Gweinidog ymlaen i nodi y byddai'n gwneud cyhoeddiad yn fuan mewn perthynas â'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn, a gwnaeth hynny'r diwrnod canlynol:³⁶

*"Bydd y Gronfa Ariannol Wrth Gefn hefyd yn cael hwb o £1.345 miliwn. Mae'r gronfa yn cefnogi dysgwyr sy'n profi caledi ariannol, gan eu galluogi i allu manteisio ar addysg coleg. Dylai dysgwyr a allai fod yn gymwys gysylltu â'u coleg."*³⁷

Grantiau eraill yn y llinell wariant Grantiau Cymorth i Fyfywyr

48. Mae'r llinell wariant Grantiau Cymorth i Fyfywyr yn rhan o'r Cam Gweithredu Cymorth i Ddysgwyr Ôl-16, ac mae'n ariannu "cyfrifon y rhaglen gymorth statudol i fyfyrwyr a arweinir gan alw" ar gyfer addysg uwch ac addysg bellach. Mae hyn yn cynnwys Grantiau a Ffioedd Rhan-Amser, Grantiau wedi'u Targedu gan Gwmnïau Benthyciadau Myfyrwyr, Grantiau Cymorth i Fyfywyr a'r LCA. Er bod cyllid ar gyfer y LCA wedi'i gynnal yng Nghyllideb Ddrafft 2023-24, mae'r llinell wariant Grantiau Cymorth i Fyfywyr yn ei chyfanwydd yn gostwng £11.8 miliwn yn 2023-24 a £12.8 miliwn yn 2024-25. Mae papur Gweinidog y Gymraeg ac Addysg yn egluro mai tanwariant hanesyddol sy'n gyfrifol am y gostyngiad hwn, a bod y gwariant yn y maes hwn yn cael ei arwain gan alw ac yn amrywio yn ôl demograffeg a'r niferoedd sy'n dewis ymgymryd ag addysg uwch.³⁸ Fe ofynnwyd ni i'r Gweinidog gadarnhau a yw'r gostyngiad yn y gyllideb oherwydd ei fod wedi ailflaenoriaethu'r cyllid hwnnw i faes arall.

³⁵ **Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11/01/2023. Cofnod y Trafodion, paragraff 34**

³⁶ **Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11/01/2023. Cofnod y Trafodion, paragraffau 35-37**

³⁷ Llywodraeth Cymru, 'Creu cronfa £5 miliwn i gefnogi arloesi mewn addysg bellach', 12/01/2023

³⁸ Llywodraeth Cymru, 'Llythyr gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg', 19/12/2022, tudalen 10

49. Dywedodd y Gweinidog wrthym fod y gyllideb ar gyfer Grantiau Cymorth i Fyfirwyr yn adlewyrchu'r galw a ragwelir. Os daw'n amlwg bod yna danwariant dros y flwyddyn, "rŷch chi'n gallu rhyddhau'r gronfa honno ar gyfer pwrpas arall wrth eich bod chi'n mynd drwy'r flwyddyn". Fodd bynnag, roedd y "pwysau mor sylweddol eleni" felly "rŷn ni wedi edrych ar hynny ynghynt yn y flwyddyn". Cadarnhaodd y Gweinidog, fodd bynnag, "dyw hynny ddim yn golygu na fyddwn ni'n cyrraedd y galw: beth bynnag fydd y galw, byddwn ni'n ei gyrraedd e, byddwn ni'n ei ateb e".³⁹

50. Mae system cyllid myfirwyr Cymru yn darparu cyfuniad o grantiau a benthyciadau ar gyfer costau byw wedi'u hasesu o ran modd, a benthyciadau i dalu am ffioedd dysgu. Ceir grantiau eraill i gefnogi myfirwyr cymwys mewn sefyllfaoedd penodol (er enghraifft, i helpu tuag at gostau gofal plant, neu os oes gan fyfyrwr blant neu oedolion sy'n ddibynnol yn ariannol).⁴⁰ Nodwn fod polisi Llywodraeth Cymru o gysylltu cyfradd cymorth myfirwyr israddedig â'r Cyflog Byw Cenedlaethol wedi arwain at gynnydd o 9.4 y cant ar gyfer blwyddyn academaidd 2023/24. Cadarnhaodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg i ni nad yw'r pecyn cymorth hwn ar gael i fyfirwyr nad ydynt yn hanu o Gymru sy'n byw yng Nghymru. Ychwanegodd fod cronfeydd caledi prifysgolion ar gael i bob myfyrwr, ochr yn ochr ag unrhyw fentrau eraill y mae prifysgolion yn eu rhedeg i helpu myfirwyr, gan ddweud wrthym ei fod yn disgwyl gweld 'nifer sylweddol' o hawliadau i'r cronfeydd caledi gan fyfirwyr nad ydynt yn hanu o Gymru. Ychwanegodd fod unrhyw fyfyrwr yng Nghymru yn gallu manteisio ar wasanaethau cymorth iechyd meddwl a ddarperir yng Nghymru.⁴¹

Addysg cyn 16 oed

Cyllid ysgolion

Cyllid refeniw

Daw'r mwyafrif helaeth o'r cyllid ar gyfer cyllidebau ysgolion o'r Grant Cynnal Refeniw, sy'n dod o fewn y Prif Grŵp Gwariant Cyllid a Llywodraeth Leol yn hytrach na'r Prif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg. Mae Setliad Llywodraeth Leol Dros Dro 2023-24 yn darparu cynnydd cyffredinol o 7.9 y cant neu £227 miliwn i awdurdodau lleol (ac nid yw'r un awdurdod lleol yn cael llai na 6.5 y cant), o gymharu â lefelau 2022-23.⁴² Mater i awdurdodau lleol fydd penderfynu ar ba wasanaethau y caiff y cynnydd hwn ei wario. Fodd bynnag, daw £117 miliwn

³⁹ [Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11/01/2023, Cofnod y Trafodion, paragraffau 101-103](#)

⁴⁰ Llywodraeth Cymru, '[Cyllid myfirwyr: addysg uwch](#)'

⁴¹ [Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11/01/2023, Cofnod y Trafodion, paragraffau 28-31](#)

⁴² [Y Cyfarfod Llawn, 13/12/2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 160](#)

o'r cyllid ychwanegol o arian canlyniadol Barnett ar gyfer addysg gan Lywodraeth y DU, y mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i'w fuddsoddi mewn ysgolion.⁴³

51. Yn y Gyllideb Ddrafft eleni, bydd yn rhaid i awdurdodau lleol dalu cost dyfarniad cyflog athrawon ar gyfer blwyddyn academiaidd 2022-23 (tua £44m) a chostau mis Medi i fis Mawrth ar gyfer unrhyw ddyfarniad cyflog blwyddyn academiaidd 2023-24 (amcangyfrifir i fod tua £75m) o Setliad Llywodraeth Leol 2023-24. Mewn blynyddoedd blaenorol, pan bennwyd dyfarniadau cyflog athrawon yn yr hydref, roedd Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid grant ychwanegol i awdurdodau lleol i dalu'r costau yn ystod gweddill y flwyddyn ariannol gyfredol (hyd at fis Mawrth) ac yn rhoi adnoddau yng Ngrant Cynnal Refeniw y flwyddyn ariannol ganlynol i dalu'r costau wedi hynny.

52. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, cyfeiriodd y Gweinidog at y cynnydd o 7.9 y cant yn y Grant Cynnal Refeniw ar gyfer 2023-24, ochr yn ochr â'r cynnydd o 9.4 y cant yn ôl yn 2022-23, sy'n awgrymu bod awdurdodau lleol eisoes wedi cael yr adnoddau i ariannu dyfarniad cyflog athrawon.⁴⁴

53. Fodd bynnag, yn ei hymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor Cyllid cyn y Gyllideb Ddrafft, rhybuddiodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fod ysgolion yn wynebu pwysau chwyddiant o £177 miliwn a £114 miliwn yn 2023-24 a 2024-25 yn y drefn honno.⁴⁵ Fe ofynnem ni i'r Gweinidog faint o'r £227 miliwn o gyllid ychwanegol a roddwyd yn y Setliad Llywodraeth Leol 2023-24 a fydd yn cael ei adael i ysgolion ymdopi â'r pwysau hynny unwaith y bydd cost dyfarniadau cyflog athrawon wedi'u talu.

54. Dywedodd y Gweinidog wrthym fod cyllid ar gyfer dyfarniad cyflog athrawon a chyllid ar gyfer ysgolion ar wahân. Dywedodd fod y cyllid ar gyfer cyflogau athrawon yn rhan o'r trafod yng nghylch diweddaraf y Grant Cynnal Refeniw, a bod yr arian hwn wrth reswm wedi dod i mewn yn fwy diweddar na hynny. Aeth ymlaen i gydnabod bod awdurdodau lleol yn wynebu pwysau sylweddol iawn, fel y mae gwasanaethau cyhoeddus eraill, gan gynnwys Llywodraeth Cymru.⁴⁶

⁴³ Llywodraeth Cymru, 'Cyllideb i "ddiogelu gwasanaethau cyhoeddus a'r rhai sydd fwyaf agored i niwed"', 13/12/2022

⁴⁴ Llywodraeth Cymru, 'Llythyr gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg', 19/12/2022, tudalen 22

⁴⁵ CLILC, 'Pwyllgor Cyllid: Craffu ar Gynigion Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 23-24'

⁴⁶ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11/01/2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 47

Codi safonau ysgolion a Grant Gwella Ysgolion y Consortia Rhanbarthol

55. Yn y Bumed Senedd (2016-2021), darparodd Llywodraeth Cymru dros £100 miliwn i ysgolion wedi'i dargedu at godi safonau yn unol ag amcanion cenedlaethol penodol. Ymddangosodd y cyllid hwn yn y gyllideb ar ffurf llinell wariant benodedig yn y gyllideb Codi Safonau Ysgolion. Yn 2022-23, daeth Llywodraeth Cymru â'r llinell wariant Codi Safonau Ysgolion i ben, a symudodd y cyllid hwnnw i linellau gwariant eraill. Ar gyfer 2023-24, y brif ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn targedu cyllid at amcanion gwella ysgolion penodol yw drwy ei Grant Gwella Ysgolion i'r Consortia Rhanbarthol.

56. Fe ofynnem ni i Weinidog y Gymraeg ac Addysg sut y mae'n sicrhau nad yw ffocws yr agenda gwella ysgolion yn cael ei wanhau mewn unrhyw ffordd a bod y cyllid sy'n cael ei sianelu drwy'r consortia rhanbarthol yn parhau i roi'r gwerth gorau am arian. Dywedodd wrthym nad oes unrhyw gysylltiad rhwng ble yn ei gyllideb y mae'r cyllid hwn a'r ffocws o fewn y system ar gyflawni'r canlyniadau. Dywedodd fod un yn ymarfer rheoli cyllideb, a'r llall yn cael ei gyflawni gan set glir iawn o ddisgwyliadau. Ychwanegodd un o swyddogion Llywodraeth Cymru mai prif ffocws y consortia rhanbarthol yw gwella ysgolion, a bod awdurdodau lleol wrthi'n cynnal trafodaethau am lefel eu buddsoddiad ar gyfer y consortia rhanbarthol sy'n cefnogi eu hysgolion. Cadarnhaodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru yn trafod ac yn adolygu'r disgwyliadau ar gyfer pob maes polisi gyda'r consortia a chydag awdurdodau lleol drwy broses reolaidd o ymgysylltu a monitro.⁴⁷

Cyllid cyfalaf

57. Nid oes unrhyw gyllid cyfalaf ychwanegol yng Nghyllideb Ddrafft 2023-24 o gymharu â'r hyn yr oedd Llywodraeth Cymru yn bwriadu ei wario yn 2023-24 pan osododd gyllideb ddangosol ar gyfer 2023-24 ym mis Mawrth 2022 (£373 miliwn). Fodd bynnag, mae hyn yn gynydd o £16 miliwn o'i gymharu â Chyllideb Derfynol 2022-23.

58. Mae tystiolaeth ysgrifenedig Gweinidog y Gymraeg ac Addysg yn nodi bod band A y rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu yn dod i ben. Mae £1.6 biliwn wedi'i fuddsoddi (£800 miliwn gan Lywodraeth Cymru a'r gweddill gan awdurdodau lleol a cholegau). Mae 167 o brosiectau wedi'u cwblhau yn erbyn targed o 150, ac mae saith arall wrthi'n cael eu hadeiladu. Dechreuodd Band B yn swyddogol ym mis Ebrill 2019 ac mae 82 o achosion busnes wedi'u cymeradwyo, gyda 29 o brosiectau wedi'u cwblhau ac 19 yn mynd rhagddynt. Mae Llywodraeth

⁴⁷ **Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11/01/2023, Cofnod y Trafodion, paragraffau 60-63**

Cymru yn cyfrannu 65 y cant o gostau prosiectau band B, a chyfraddau uwch ar gyfer ysgolion arbennig ac ysgolion ffydd.⁴⁸

59. Caiff £300 miliwn ei ddyrannu ar gyfer Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu yn 2022-23 ac mae'r gyllideb hon yn cael ei chynnal am y ddwy flynedd nesaf. Fe ofynnem ni i'r Gweinidog a yw'n pryderu am werth ei gyllideb gyfalaf mewn termau real, o ystyried nad oes cynnydd i'r gwariant arfaethedig yn 2023-24 a bod sôn bod costau adeiladu ysgolion yn wynebu chwyddiant o oddeutu 15 y cant. Dywedodd y Gweinidog wrthym mai dyma un o'r agweddau mwyaf rhyfeddol ar y setliad gan Lywodraeth y DU oherwydd nad oes un geiniog wedi'i dyrannu ar gyfer cyfalaf yn y gyllideb honno. Aeth ymlaen i ddweud :

*"There's a real knock-on effect in manufacturing costs, on the cost of equipment and obviously also the cost of the workforce, and they will inevitably and inescapably lead to less being delivered for the same amount of money. That is the consequence of there being no further capital allocation into the Welsh Government's budget."*⁴⁹

60. Dywedodd y Gweinidog wrthym fod dyraniad cyfalaf 2022-23 yn cael ei gynnal ar gyfer 2023-24. Roedd dyraniad 2022-23 yn gynnydd o 33 y cant ar ddyraniad 2021-22, a oedd yn 'gynnydd sydyn' yn y cyllid. Fodd bynnag, roedd yn cydnabod:

"[...] the practical implication of inflation on the budget is that we are seeing local authorities, further education colleges revisit their plans in relation to construction and new development. There is a pretty much universal pressure, I would say, across the system and a number of projects slowing down as a result of that."

Ychwanegodd fod Llywodraeth Cymru yn gweithio fesul prosiect i gefnogi awdurdodau a cholegau gyda'u prosiectau, gan gynnwys gyda chostau ychwanegol os oes modd.⁵⁰

61. Fe bwysom ni ar y Gweinidog ynghylch i ba raddau yr oedd yn credu bod cyflwr adeiladau ysgolion ledled Cymru yn niweidiol i gyrhaeddiad addysgol pobl ifanc. Dywedodd wrthym fod cysylltiad rhwng gallu ysgol i addysgu yn y ffordd briodol â'r cyfleusterau sydd gan yr ysgol. Dywedodd mai dyna pam y mae eisiau gwneud yn siŵr bod disgyblion ym mhob rhan o Gymru yn cael eu haddysgu mewn amgylchedd modern a phriodol. Yn ogystal â'r cynllun Cymunedau

⁴⁸ Llywodraeth Cymru, '**Llythyr gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**', 19/12/2022, tudalen 40

⁴⁹ **Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11/01/23, Cofnod y Trafodion, paragraff 49**

⁵⁰ **Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11/01/23, Cofnod y Trafodion, paragraffau 49-51**

Cynaliadwy ar gyfer Dysgu, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn bwriadu rhoi cymorth i awdurdodau lleol ar gyfer gwaith cynnal a chadw, iechyd, diogelwch, datgarboneiddio ac awyru. Bydd rhagor o wybodaeth am y cynlluniau hynny yn cael ei chyhoeddi yn yr wythnosau i ddod.⁵¹

Y Grant Datblygu Disgyblion

62. Y Grant Datblygu Disgyblion yw'r prif fecanwaith ariannol y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddefnyddio i geisio gwella canlyniadau addysgol dysgwyr difreintiedig. Mae ysgolion yn cael £1,150 ychwanegol ar gyfer pob disgybl ar eu cofrestr y mae eu rhieni'n cael budd-daliadau penodol, ac mae'r consortia rhanbarthol yn cael £1,150 am bob plentyn sy'n derbyn gofal yn eu rhanbarth.

63. Mae Cyllideb Ddrafft 2023-24 wedi dyrannu £9 miliwn yn fwy ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion na'r gyllideb ddangosol ar gyfer 2023-24. Fel y trafodwyd yn yr adran gynharach ar Hanfodion Ysgol, mae hyn yn dal i fod yn ostyngiad yn llinell gyllideb y Grant Datblygu Disgyblion o £5 miliwn o gymharu â 2022-23. Nid oes dadansoddiad o'r £142.5 miliwn yn y llinell gyllideb yn ôl faint ohono sydd ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion i ysgolion a faint sydd ar gyfer Hanfodion Ysgol i deuluoedd.

64. Cadarnhaodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg wrthym fod y dyraniad diwygiedig yn adlewyrchu bod mwy o ddysgwyr yn gymwys nag a ragwelwyd adeg gosod y gyllideb ddangosol. Fe ofynnem ni i'r Gweinidog pa gyllid ychwanegol y mae Llywodraeth Cymru yn ei dargedu at leihau'r bwlch cyrhaeddiad rhwng dysgwyr difreintiedig a'u cyfoedion, sy'n parhau i fod yn eang iawn. Dywedodd wrthym, ar ben y Grant Datblygu Disgyblion, fod Llywodraeth Cymru wedi dyrannu £37.5 miliwn i'r rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau, sydd wedi'i phwysoli i roi mwy o gyllid i ysgolion â niferoedd uwch o ddisgyblion difreintiedig. Tynnodd sylw hefyd at gyllid ar gyfer y rhaglen ysgolion bro, swyddogion ymgysylltu â theuluoedd, swyddogion lles addysg, a phecyn cymorth y gronfa gwaddol addysg.⁵²

Cronfeydd wrth gefn ysgolion

65. Mae cronfeydd wrth gefn ysgolion ar eu huchaf yn hanesyddol ar hyn o bryd, sef £301 miliwn ym mis Mawrth 2022 o gymharu â £32 miliwn ym mis Mawrth 2020.⁵³ Fe ofynnem ni i'r Gweinidog a yw'n fodlon bod ysgolion yn defnyddio'r balansau hyn yn ystod y flwyddyn, a sut y mae Llywodraeth Cymru yn monitro'r defnydd hwnnw. Roedd y Gweinidog yn dadlau bod ffigur mis Mawrth 2020 yn anarferol o isel. Mae patrymau tymor hir yn dangos bod cronfeydd wrth

⁵¹ **Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11/01/23, Cofnod y Trafodion, paragraff 57.**

⁵² **Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11/01/23, Cofnod y Trafodion, paragraff 44**

⁵³ Llywodraeth Cymru, '**Cronfeydd wrth gefn ysgolion: ar 31 Mawrth 2022**', 27/10/2022

gefn fel arfer tua dwywaith hynny. Eglurodd y Gweinidog fod cronfeydd wrth gefn yn arbennig o uchel ar hyn o bryd oherwydd bod ysgolion wedi gweithredu'n wahanol yn ystod y pandemig, ac felly nad oeddent wedi gwario'u holl gyllidebau refeniw. Ychwanegodd fod gan ysgolion gynlluniau ar gyfer defnyddio rhan o'r cronfeydd wrth gefn hynny, sydd wedi'u clustnodi ar gyfer pob math o bethau y maent am iddynt wario'r arian hwnnw arno. Fodd bynnag, fe wnaeth ein hatgoffa mai dim ond unwaith y mae modd defnyddio cronfeydd wrth gefn, ac felly nad ydynt yn ateb i bwysau hirdymor ar gyllid. Roedd yn rhagweld y byddai'r cronfeydd wrth gefn yn disgyn yn ôl i'r lefelau arferol o fewn tua 18 mis.⁵⁴

66. O dan Reoliadau Ariannu Ysgolion (Cymru) 2010, mae gan awdurdodau lleol bwerau naill ai i gyfarwyddo ysgolion i wario balansau dros drothwyon penodedig neu adennill yr arian hwn oddi wrth ysgolion. Y trothwyon hyn yw cronfeydd o £50,000 ar gyfer ysgolion cynradd a £100,000 ar gyfer ysgolion uwchradd. Mae'r datganiad ystadegol blynyddol a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru yn cynnwys data ar nifer yr ysgolion sydd â chronfeydd wrth gefn dros gyfran benodol o'u cyllideb a'r sefyllfa gymharol ar draws awdurdodau lleol. Nid yw'n cyfeirio at nifer yr ysgolion sy'n mynd dros y trothwyon ariannol a nodir yn y Rheoliadau.

67. Yn ogystal â thrafod lefel cronfeydd wrth gefn ysgolion, fe ofynnem ni i'r Gweinidog egluro a fyddai modd defnyddio'r cronfeydd wrth gefn hyn ar gyfer gwariant cyfalaf, yn wyneb y cyfleoedd cyfyngedig o ran cyllid cyfalaf. Cadarnhaodd ei swyddog mai costau refeniw a chostau rhedeg yw'r cronfeydd wrth gefn yn bennaf, sy'n cael eu tynnu o gronfeydd cyllid gwahanol.

Gweithredu diwygiadau addysg allweddol

Y cwricwlwm newydd

68. Cyflwynwyd y Cwricwlwm newydd i Gymru mewn ysgolion cynradd ym mis Medi 2022 a bydd yn cael ei gyflwyno fesul grŵp blwyddyn mewn ysgolion uwchradd tan fis Medi 2026. Mae llinell wariant y Cwricwlwm ac Asesu, sy'n cefnogi'r gwaith o'i weithredu, yn cael £36 miliwn yn 2023-24. Ar y cyfan, mae'r lefel hon yr un fath yn fras, unwaith y caiff symudiadau rhwng llinellau cyllideb eu hystyried. Fe ofynnem ni i Weinidog y Gymraeg ac Addysg a oedd wedi ystyried blaenoriaethu'r gyllideb hon ar gyfer unrhyw gynnydd, o ystyried bod Estyn wedi dweud yn ei grynodedeb o ganfyddiadau cyn ei adroddiad blynyddol ar gyfer 2021-22 fod cynnydd ysgolion tuag at weithredu yn rhy amrywiol.

⁵⁴ **Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11/01/23, Cofnod y Trafodion, paragraffau 87-88**

69. Ategodd y Gweinidog fod cynnal lefel y cyllid wedi bod yn heriol ynddo'i hun. Dywedodd fod y cwricwlwm newydd yn faes o flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, dadleuodd fod gwaith Estyn yn dangos amrywiadau yn y modd y dylid defnyddio cyllid, nid yn unig bod angen mwy o gyllid yn gyffredinol:

"Our assessment is that, where there is variability in curriculum roll-out, that is not limited or isolated to questions of the new curriculum, and it correlates with, generally speaking, other challenges that the school faces—perhaps underlying challenges. And schools in that situation are already getting bespoke support from school improvement services, and, in a different way, from Estyn, and indeed from the Welsh Government education officials as well. So, I think that's the way to link the two points that you are making."⁵⁵

Diwygiadau'r Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

70. Mae ein gwaith craffu ar weithredu diwygiadau addysg Llywodraeth Cymru wedi tynnu sylw at bryderon y gallai cyfyngiadau ar gapasiti mewn ysgolion ac awdurdodau lleol olygu y gallai'r trothwy ar gyfer nodi bod gan ddysgwyr ADY godi o dan y system newydd: effaith 'codi'r bar'. Yn ei ymateb i'n llythyr⁵⁶ yn tynnu sylw at y pryderon hynny, cydnabu Gweinidog y Gymraeg ac Addysg y gallai Anghenion Addysgol Arbennig fod wedi'u nodi'n anghywir a'u gorodrodd yn y gorffennol.⁵⁷ Fe ofynnem ni i'r Gweinidog a oedd yn pryderu y gallai materion adnoddau yn hytrach nag angen ddod yn sbardun allweddol ar gyfer penderfyniadau ynghylch pa ddysgwyr sy'n cael cymorth ADY.

71. Rhoddodd y Gweinidog sicrwydd inni y byddai'n gwneud yn siŵr bod y system ADY newydd yn cael ei llywio gan broffil arbennig anghenion y dysgwyr unigol, yn hytrach na'r lefelau adnoddau sydd ar gael. Ychwanegodd nad oedd yn teimlo bod y gostyngiad yn niferoedd y dysgwyr y nodir bod ganddynt ADY yn adlewyrchiad o ostyngiad mewn angen, a'u bod yn debygol o godi eto:

"What I think is the case is that the particular list of individuals—these aren't just numbers, they're individual learners, aren't they—having looked at those, authorities have decided that perhaps people have been miscategorised, perhaps people's needs were temporary and have been met, but they remain

⁵⁵ **[Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11/01/23, Cofnod y Trafodion, paragraffau 67](#)**

⁵⁶ Senedd Cymru, '[Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at Weinidog y Gymraeg ac Addysg](#)', 08/08/22

⁵⁷ Llywodraeth Cymru, '[Llythyr gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Addysg a Phobl Ifanc](#)', 28/09/22

on the list. I think those have generally been the driver for that change on that list. My own expectation is that we will see the numbers increase again. That's certainly what happened when England introduced, in their case, actually more modest changes [...]"⁵⁸

Iechyd meddwl mewn ysgolion: y dull ysgol gyfan

72. Mae'r Gyllideb Ddrafft yn dyrannu £7.4 miliwn ar gyfer y Dull Ysgol Gyfan ar gyfer llesiant. Mae'r ffigur hwn yn parhau fel y cynlluniwyd o'i gymharu â'r gyllideb ddangosol, ond mae'n uwch na'r £5 miliwn yn 2022-23. Ceir £7 miliwn hefyd yn y Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer y dull ysgol gyfan, gan gynnwys £5 miliwn ar gyfer cyflwyno gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasod mewn ysgolion yn genedlaethol. Rydym wedi clywed nifer o bryderon am iechyd meddwl dysgwyr yng Nghymru yn ystod ein gwaith polisi hyd yn hyn, gan gynnwys mewn perthynas ag absenoldeb disgyblion ac aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion. Fe ofynnem ni i'r Gweinidog a oedd y cyllid hwn yn ddigonol.

73. Dywedodd y Gweinidog wrthym ei fod yn gweld y fenter fel 'dull system gyfan', sy'n ymestyn o'r blynyddoedd cynnar i brifysgolion: ar hyd y daith addysg gyfan. Dywedodd wrthym fod y gyllideb wedi cynyddu'n sylweddol, a hynny o £9 miliwn yn 2021 i dros £14 miliwn yn y flwyddyn hon, a dywedodd ei fod yn credu bod hyn yn dangos lefel yr angen. Dywedodd fod lefel uwch o alw wedi'i chydabod a'i nodi ac mai dyna pam mae'r gwaith yn cael ei wneud. Ond rhybuddiodd mai dim ond un agwedd yn unig yw cyllid:

"[...] it's really important that we look at how best to make sure the system works together. We are not in a place, I would say, across the Government in the current climate where we can afford to have different budgets doing different things in a way that isn't joined up."⁵⁹

Yr agenda Cymraeg 2050

74. Yng ngoleuni ein hymchwiliad ar y cyd â'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol ar Gynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg, fe wnaethom ni ganolbwyntio'n benodol ar ganlyniadau Cyfrifiad 2011 a'u goblygiadau i ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Fe ofynnem ni i Weinidog y Gymraeg ac Addysg am ei farn ar ganlyniadau'r Cyfrifiad, ac a oedd yn

⁵⁸ [Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11/01/23, Cofnod y Trafodion, paragraff 69](#)

⁵⁹ [Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11/01/23, Cofnod y Trafodion, paragraffau 83-84](#)

teimlo'n hyderus bod yr adnoddau angenrheidiol ar gael i gefnogi rôl y system addysg o ran cyfrannu at yr agenda 'Cymraeg 2050'.

75. Dywedodd y Gweinidog wrthym, er ei fod yn siomedig â chanlyniadau'r Cyfrifiad, ei fod wedi'i 'galonogi' gan ganlyniadau'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, sy'n dangos y duedd i'r gwrthwyneb. Ychwanegodd fod y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn mynd i gefnogi'r Llywodraeth i geisio gweld pam fod y ddau arolwg yn rhoi canlyniadau mor wahanol. Er ei fod yn cydnabod bod "wastad pethau newydd i ddod o hyd iddynt i fuddsoddi arian ynddynt", ychwanegodd:

*"[...] the budget now stands at just under £21 million for the Welsh in education side of my budget. There's also a Welsh language policy side of the budget. And, in addition to that, there's a range of ways in which funding from other portfolios are designed to support the Welsh language, and that's really important and that mustn't change."*⁶⁰

76. Fe bwysom ni ar y Gweinidog i gadarnhau a oedd yn hyderus y bydd digon o fuddsoddiad mewn hyfforddiant cychwynnol athrawon a rhaglenni sabothol er mwyn sicrhau twf yn y gweithlu addysg cyfrwng Cymraeg, sy'n allweddol i gyflawni Cymraeg 2050. Rhoddodd y Gweinidog sicrwydd inni fod "y gyllideb sydd gyda ni yn ddigonol i fynd i'r cam nesaf" ac "rŷn ni ar lwybr i gynyddu hynny".⁶¹

77. Pan wnaethom ni ofyn i'r Gweinidog a oedd yn teimlo bod digon o adnoddau yn y system i gyflwyno darpariaeth cyfrwng Cymraeg newydd mewn rhannau o Gymru lle nad oes darpariaeth cyfrwng Cymraeg o gwbl, ei ateb diamwys oedd 'ydw'.⁶²

Addysg ôl-16

Addysg bellach

78. Ymatebodd Colegau Cymru, y sefydliad ambarél sy'n cynrychioli'r sector addysg bellach, i ymgynghoriad y Pwyllgor Cyllid ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24.⁶³ Fe wnaeth dynnu sylw at nifer o heriau ac atebion posibl, gan gynnwys:

- Nid yw cyllidebu fesul blwyddyn, cymhlethdod y ffrydiau ariannu sydd ar gael, a "chronfeydd" cystadleuol o arian untro yn rhoi sicrwydd na chysondeb, a dylai

⁶⁰ [Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11/01/2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 73](#)

⁶¹ [Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11/01/2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 76](#)

⁶² [Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11/01/2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 79](#)

⁶³ [Tystiolaeth ysgrifenedig, WGDB 23-24 09, CollegesWales](#)

Llywodraeth Cymru ystyried model ariannu tair blynedd i ganiatáu ar gyfer gwell darpariaeth gynllunio ar draws y sector.

- Mae cost prisiau ynni yn debygol o fod yn sylweddol i ddarparwyr addysg bellach. Mae'r duedd gadarnhaol o ran cyllid addysg bellach yn rhywbeth cadarnhaol, ond mae angen iddo barhau mewn termau real gyda dull hyblyg o gefnogi'r sector addysg bellach.
- Dylid cadw cydraddoldeb rhwng sectorau, yn enwedig o ran dyfarniadau cyflog i staff colegau ac i ddarparwyr dysgu seiliedig ar waith.

79. Mae'r llinell gyllideb sy'n ariannu sefydliadau addysg bellach yn cael dyraniad cylchol ychwanegol o £9 miliwn o'r cronfeydd canolog wrth gefn "er mwyn adolygu cyllid R&R ac amsugno unrhyw bwysau cyflog pellach ar gyfer adrannau chweched dosbarth ysgolion a'r sector AB".⁶⁴ Fe ofynnwyd ni, o ystyried pwysau chwyddiant, a yw'r £9 miliwn ychwanegol yn ddigon i sicrhau y gall lleoliadau addysg bellach fodloni'r gofynion ariannol sydd arnynt.

80. Dywedodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg wrthym fod Llywodraeth Cymru am roi blaenoriaeth i'r sector addysg bellach. Esboniodd fod y £9 miliwn ar gyfer sicrhau cydraddoldeb cyflog rhwng athrawon ysgol a darlithwyr addysg bellach, gan ddweud ei bod yn egwyddor bwysig iawn i'r Llywodraeth. Dywedodd y Gweinidog wrthym hefyd am bwysau ychwanegol y mae'r sector yn eu hwynebu oherwydd bod y gost o ddarparu deunyddiau ar gyfer cymwysterau galwedigaethol wedi cynyddu (er enghraifft, yn y maes adeiladu).⁶⁵

81. Y diwrnod ar ôl ein sesiwn dystiolaeth gyda'r Gweinidog, cyhoeddodd y caiff Cronfa Arloesi newydd ei chreu, a fydd yn buddsoddi mewn prosiectau sydd â'r nod o "gefngi dysgwyr mewn meysydd allweddol, gan gynnwys datblygu sgiliau, lles, gwytnwch a'r gallu i addasu, gan helpu colegau addysg bellach i gydweithio ar yr un pryd". Mae'r gronfa hon yn cynnwys £2.5 miliwn ar gyfer colegau addysg bellach i gefnogi'r costau uwch sy'n gysylltiedig â chyflwyno rhaglenni dysgu galwedigaethol.⁶⁶

Addysg uwch

⁶⁴ Llywodraeth Cymru, '[Llythyr gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg](#)', 19/12/2022, tudalen 7

⁶⁵ '[Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11/01/2023. Cofnod y Trafodion, paragraffau 111-114](#)

⁶⁶ Llywodraeth Cymru, '[Creu cronfa £5 miliwn i gefnogi arloesi mewn addysg bellach](#)', 12/01/2023

Y pwysau ariannol sy'n wynebu darparwyr addysg uwch

82. Yn ôl papur Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, mae Cyllideb Ddrafft 2023-24 yn rhoi gostyngiad net o £1.36m yn y gyllideb ar gyfer llinell wariant Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yn 2023 a 2024-25. Mae hyn yn adlewyrchu trosglwyddo cyllid Global Wales III (£1.6 miliwn) i linell wariant Cyfnewid Ryngwladol ar gyfer Dysgu ynghylch Taith, a chaiff ei wrthbwysu gan ddyraniad o £0.24 miliwn i dalu am godiadau cyflog.⁶⁷

83. Ymatebodd Prifysgolion Cymru i ymgynghoriad y Pwyllgor Cyllid ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24. Roedd yr ymateb yn pwysleisio heriau chwyddiant, gyda gostyngiad mewn gwerth termau real o'r uchafswm ffi o £9,000 ar gyfer myfyrwyr israddedig amser llawn. Gwnaeth rai argymhellion i'r Pwyllgor Cyllid, gan gynnwys:

- Ymrwymiad i weithredu argymhellion Adolygiad Diamond yn llawn mewn termau real
- Costau pontio i helpu gyda'r cynnydd mewn costau sy'n ymwneud ag ynni, pensiynau a chostau byw
- Cymorth pontio i brifysgolion gynnal "talent a seilwaith" sydd mewn perygl o gael eu colli oherwydd diffyg ffynonellau cyllid i gymryd lle rhai'r UE.⁶⁸

84. Fe ofynnwyd ni i Weinidog y Gymraeg a Addysg sut y byddai'n rhoi sicrwydd i randdeiliaid bod y gyllideb hon yn ystyried y pwysau ariannol sy'n wynebu darparwyr addysg uwch. Dywedodd wrthym fod Llywodraeth Cymru mewn "mewn trafodaeth gyson gyda HEFCW ynglŷn â'r sefyllfa ariannu ar draws y sector, fel byddech chi'n disgwyl, i sicrhau bod ni'n deall gyda gymaint o fanylder y gallwn ni y sefyllfa ar lawr gwlad yn y tymor byr, ac efallai y trend ar gyfer y tymor hwy fel ein bod ni'n gallu cynllunio ar gyfer hwnnw". Ychwanegodd ei fod yn falch ei fod wedi gallu cynnal lefel y cyllid ar gyfer prifysgolion a'r sector ehangach, sydd wedi bod yn her ynddo'i hun.⁶⁹

Cymorth iechyd meddwl i fyfyrwyr addysg uwch

85. Mae tystiolaeth ysgrifenedig Gweinidog y Gymraeg ac Addysg yn dweud bod prifysgolion yn talu'r costau ychwanegol o gefnogi myfyrwyr a staff gyda phwysau costau byw o'u cyllidebau presennol. Mae'r papur yn rhoi manylion cyllid sydd wedi'i neilltuo yng nghyfanswm dyraniad

⁶⁷ Llywodraeth Cymru, '[Llythyr gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg](#)', 19/12/2022, tudalen 36

⁶⁸ [Tystiolaeth ysgrifenedig, WGDB 23-24 24, Prifysgolion Cymru](#)

⁶⁹ [Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11/01/2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 95](#)

CCAUC, sy'n cynnwys £2 filiwn i gefnogi iechyd meddwl a llesiant.⁷⁰ Yn nhystiolaeth CCAUC i'n hymchwiliad ynghylch cymorth iechyd meddwl mewn addysg uwch, dywedodd CCAUC, er bod y cyllid hwn i'w groesawu, ei fod yn "gorfod ymestyn i ddiwallu anghenion iechyd meddwl niferoedd o fyfyrwyr sy'n cynyddu'n barhaus".⁷¹ Fe ofynnem ni i'r Gweinidog i ba raddau y mae'n fodlon bod dyraniad un-flwyddyn o £2 filiwn yn ddigonol, a beth y gellid ei wneud i ddarparu dyraniadau cyllid tymor hwy ar gyfer cymorth iechyd meddwl.

86. Roedd y Gweinidog yn cydnabod "y pwysau sydd ar unrhyw elfen o gyllideb yn y cyd-destun economaidd, ond hefyd yng nghyd-destun cynnydd mewn galw". Fodd bynnag, roedd yn dadlau bod Llywodraeth Cymru wedi darparu cymorth tebyg ar gyfer iechyd meddwl ym maes addysg uwch ers 2018. Ychwanegodd, er ei fod yn deall galwadau am gyllidebu tymor hwy:

"[...] dyw'r ffaith bod arian yn cael ei ddyrannu'n flynyddol ddim yn golygu bod sefydliadau yn gorfod gwneud penderfyniadau ar sail flynyddol. Mae pob elfen o'r sector gyhoeddus ar un lefel yn cael cyllideb flynyddol, ond maen nhw'n gwneud ymrwymadau sydd yn ymestyn ymhell i'r dyfodol, wrth gwrs. Felly, mae e'n rhan o ddewis sydd gan unrhyw sefydliad o ran sut maen nhw'n gwneud hynny [...]"⁷²

Prentisiaethau gradd

87. Portffolio'r Economi sy'n gyfrifol am bolisi prentisiaethau, ond caiff cyllid ar gyfer prentisiaethau gradd ei ddarparu drwy Linell Wariant yn y Gyllideb CCAUC. Mae cyllideb CCAUC yn cynnwys £5 miliwn wedi'i neilltuo i gefnogi'r gwaith o gyflwyno prentisiaethau gradd yng Nghymru, sydd, yn ôl papur y Gweinidog, yn "cynnal lefel y cymorth a ddarparwyd o gyllidebau AU mewn blynyddoedd blaenorol".⁷³ Mae £4.87 miliwn i'w drosglwyddo o Brif Grŵp Gwariant yr Economi mewn cyllidebau atodol yn y dyfodol.

88. Yn ei ymateb i'r ymgynghoriad, galwodd Prifysgolion Cymru hefyd am gymorth pellach i ehangu prentisiaethau gradd yng Nghymru.⁷⁴ Fe ofynnem ni i Weinidog y Gymraeg ac Addysg sut y mae'n cydgysylltu'r gwaith o gyflwyno prentisiaethau gradd gyda Gweinidog yr Economi, a

⁷⁰ Llywodraeth Cymru, '[Llythyr gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg](#)', 19/12/2022, tudalen 24

⁷¹ [Tystiolaeth ysgrifenedig, MHHE 14, CCAUC](#)

⁷² [Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11/01/2023, Cofnod y Trafodion, paragraffau 97-98](#)

⁷³ Llywodraeth Cymru, '[Llythyr gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg](#)', 19/12/2022, tudalen 37

⁷⁴ [Tystiolaeth ysgrifenedig, WGDB 23-24 24, Prifysgolion Cymru, tudalen 2](#)

sut y mae'n bwriadu bwrw ymlaen â'r gwaith o gyflwyno rhaglen estynedig o brentisiaethau gradd. Dywedodd wrthym ei fod ef a Gweinidog yr Economi yn cytuno ar y blaenoriaethau ar gyfer unrhyw fentrau polisi a ariennir ar y cyd. Ychwanegodd eu bod yn rhoi blaenoriaeth i'w gwneud yn haws cael mynediad at brentisiaethau gradd. Ynghyd â'r cyllid o gyllideb Gweinidog yr Economi, tua £10 miliwn fydd cyfanswm y cyllid ar gyfer prentisiaethau gradd yn 2023-24.⁷⁵

Ymchwil ac arloesi

89. Mae nifer o randdeiliaid wedi cysylltu â'r Senedd i alw am fwy o fuddsoddiad mewn ymchwil ac arloesi.⁷⁶ Fe ofynnwyd ni i Weinidog y Gymraeg ac Addysg sut y mae'n gweithio gyda Gweinidog yr Economi ar y maes polisi hwn, a sut y mae ei gyllideb yn cefnogi ymchwil ac arloesi. Esboniodd un o swyddogion Llywodraeth Cymru:

"Research and innovation isn't just about higher education; the funding sources aren't just ours. So, there's an interplay with the UK Government, there's an interplay with the different parts of the organisation to actually clarify what the research priorities are and the best ways of addressing them. And again, a close working relationship between the Ministers."⁷⁷

Gofynnodd Aelodau Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig gwestiwn tebyg i Weinidog yr Economi. Roeddent yn dyfynnu tystiolaeth ysgrifenedig y Gweinidog, a oedd yn nodi nad oes arweinydd cyffredinol yn Llywodraeth Cymru ym maes ymchwil ac arloesi. Tynnodd y Gweinidog sylw at Strategaeth Arloesi Llywodraeth Cymru, y daeth yr ymgynghoriad i ben arni ym mis Medi 2022.⁷⁸ Esboniodd fod y strategaeth yn ceisio tynnu ynghyd y gwahanol rannau o'r Llywodraeth, gwahanol adrannau, a gwahanol Weinidogion sydd â chyfrifoldebau dros wneud penderfyniadau, i wneud yn siŵr bod mwy o gydlyniant o ran yr hyn sy'n cael ei gynnig. Eglurodd y Gweinidog fod hyn yn arbennig o bwysig oherwydd colli cyllid yr UE ac effaith pwysau chwyddiant ar werth cyllideb Llywodraeth Cymru. Dywedodd wrth y Pwyllgor:

"What we are trying to do in our innovation strategy is reflect and take on board that honest truth, and at the same time, to say, 'This is how we need

⁷⁵ **Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11/01/2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 107**

⁷⁶ Gweler: **Tystiolaeth ysgrifenedig, WGDB 23-24 24, Prifysgolion Cymru; Y Sefydliad Ffiseg, 'Llythyr gan y Sefydliad Ffiseg at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a Chadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig'**, 06/12/2022; Cymdeithas Ddysgedig Cymru, Cymdeithas Ddysgedig Cymru, 'Llythyr gan Gymdeithas Ddysgedig Cymru ynghylch ymchwiliad y Pwyllgor Cyllid i Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru', 18/11/2022

⁷⁷ **Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11/01/2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 120**

⁷⁸ Llywodraeth Cymru, '**Strategaeth arloesi i Gymru**', 02/12/2022

*to draw together and have a more coherent whole from the Government'. It's how and why we need to work right across our system, with private sector research partners, as well as higher and further education."*⁷⁹

Dywedodd y Gweinidog yn blwmp ac yn blaen fod y toriadau mewn cyllid yn cael effaith uniongyrchol ar addysg uwch ac addysg bellach—addysg uwch yn arbennig—a'i fod yn ofni bod yna bobl sy'n annhebygol o barhau yn y swyddi a ariennir gan ymchwil mewn addysg uwch yn y flwyddyn ariannol newydd.⁸⁰

Y Warant i Bobl Ifanc

90. Cyflawni'r Warant i Bobl Ifanc yw un o ymrwymadau allweddol y Rhaglen Lywodraethu, gan gyfrannu at sicrhau bod o leiaf 90 y cant o bobl ifanc 16 i 24 oed yng Nghymru mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant erbyn 2050. Mae'r Warant i Bobl Ifanc yn strwythur ymbarél, sy'n ymgorffori ystod o raglenni ar gyfer pobl ifanc. Mae tystiolaeth ysgrifenedig Gweinidog y Gymraeg ac Addysg yn egluro bod "cyllid ar gyfer colegau AB, adrannau chweched dosbarth awdurdodau lleol, darpariaeth awdurdodau lleol ar gyfer dysgu oedolion yn y gymuned a Chyfrifon Dysgu Personol" i gyd yn cael eu dyrannu o Linell Wariant y Ddarpariaeth Ôl-16 a'u bod oll yn cyfrannu at y Warant i Bobl Ifanc.⁸¹

91. Yn ystod y gwaith craffu y llynedd ar Gyllideb Ddrafft 2022-23, fe wnaethom ni argymhelliad ar y cyd y dylai Llywodraeth Cymru egluro sut y caiff cyllid ei ddyrannu i'r Warant i Bobl Ifanc ar draws y prif grwpiau gwariant. Unwaith eto eleni, fe ofynnem ni i'r Gweinidog nodi sut y mae Gweinidogion a swyddogion yn cydgysylltu'r gwaith o ariannu a chyflwyno'r warant, a sut y caiff ei heffaith ar draws portffolios ei gwerthuso.

92. Eglurodd y Gweinidog fod cydgysylltu'n digwydd ar lefel y Cabinet, a'i fod ef a Gweinidog yr Economi yn cydweithio'n agos iawn yn barhaus i gyflwyno'r rhaglen. Ar lefel swyddogol, ceir bwrdd rhaglen y Warant i Bobl Ifanc a hefyd bwrdd cyflogadwyedd a sgiliau sy'n cynnwys swyddogion o adran y Gweinidog a swyddogion o dîm Gweinidog yr Economi. Pwysleisiodd fod yna system gyfunol iawn, lle mae swyddogion yn gweithio fel rhan o un tîm, er bod y cyllidebau ar wahân.⁸²

⁷⁹ **Pwyllgor yr Economi, Trafnidiaeth a Materion Gwledig, 12/01/23, Cofnod y Trafodion, paragraffau 267-271**

⁸⁰ **Pwyllgor yr Economi, Trafnidiaeth a Materion Gwledig, 12/01/23, Cofnod y Trafodion, paragraff 269**

⁸¹ Llywodraeth Cymru, **Llythyr gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**, 19/12/2022, tudalen 39

⁸² **Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11/01/2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 116**

93. Fe ofynnem ni i'r Gweinidog a oes unrhyw swyddogion iechyd yn eistedd ar fwrdd y rhaglen, o ystyried y berthynas rhwng canlyniadau iechyd meddwl, addysg, sgiliau a chyflogaeth. Eglurodd un o swyddogion Llywodraeth Cymru fod y bwrdd yn gweithio'n agos iawn gyda swyddogion iechyd. Yn benodol, mae swyddogion:

*"[...] are making sure that we align the young person's guarantee more closely with the work that we do around young people who aren't in education, employment or training, and very much trying to use some of the additional funding that's in the economy MEG to make sure that we're targeting the support much more around the issues that are manifesting, and joining that up across all of the support that's available is absolutely key."*⁸³

Dyweddodd y swyddog wrthym nad oes cyfraniad gan y Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i'r Warrant i Bobl Ifanc. Yn lle hynny, mae'r Llywodraeth yn cyfeirio at raglenni hirsefydlog, sydd â brand cryf ac enw da, a all ddarparu'r gefnogaeth ofynnol i bobl ifanc.⁸⁴

94. Y diwrnod ar ôl ein sesiwn dystiolaeth gyda Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, gofynnodd aelodau Pwyllgor yr Economi, Trafnidiaeth a Materion Gwledig i Weinidog yr Economi sut y mae'n bwriadu cyflwyno'r Warrant i Bobl Ifanc o ystyried yr hinsawdd economaidd bresennol. Eglurodd y Gweinidog ei fod am sicrhau nad yw pobl yn cael eu gadael ar ôl a bod pobl yn cael cyfleoedd i wneud yn siŵr eu bod yn gallu cael mynediad i'r farchnad lafur. Pwysleisiodd bwysigrwydd ymyrraeth gynnar, yn enwedig mewn perthynas ag iechyd meddwl:

*"[...] the youth engagement and progression framework is really important—the work we've done with both the Deputy Minister for Mental Health and Well-being and indeed the Minister for Education and Welsh Language on that as well—and that's about joining up the different potential interventions at the earliest possible stage. [...] the reality that one of our big challenges that we're going to need to address through our young person's guarantee work and the broader support for young people, is that there is a much more significant mental health challenge."*⁸⁵

⁸³ **Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11/01/2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 124**

⁸⁴ **Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11/01/2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 126**

⁸⁵ **Pwyllgor yr Economi, Trafnidiaeth a Materion Gwledig, 12/01/2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 243**

Gweithredu'r Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil

95. Cafodd y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil ei sefydlu gan Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022. Y Comisiwn fydd y "steward cenedlaethol ym maes addysg drydyddol ac ymchwil".⁸⁶ Bydd yn gyfrifol am ariannu, goruchwyllo a rheoleiddio'r holl addysg a hyfforddiant ôl-16, a'i ansawdd. Mae Cyllideb Ddrafft 2023-24 yn cynnwys llinell wariant Diwygio Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol. Ceir cyllideb o £6 miliwn yn 2023-24 a 2024-25, gostyngiad o £1 miliwn o Gyllideb Derfynol Ddangosol 2023-24 a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2022. Daw'r gostyngiad o ymarfer ail-flaenoriaethu ac asesiad o gostau rhaglen sefydlu'r Comisiwn. Fe ofynnem ni i Weinidog y Gymraeg ac Addysg esbonio pam y digwyddodd y newid hwn a sut y mae'n rhagweld y gallai strwythur y gyllideb newid wrth i'r comisiwn ddechrau gweithredu ei swyddogaethau.

96. Esboniodd y Gweinidog fod y gostyngiad mewn cyllid o ganlyniad i ailbroffilio'r gwariant ar sefydlu'r comisiwn. Bwriad gwreiddiol y Gweinidog oedd i'r Comisiwn fod yn weithredol o fis Ebrill 2023. Fodd bynnag:

"[...] there was just too much to do, effectively, to make that happen in April this year, we delayed that until April next year to allow all the important work that needs to happen to set up the commission, bringing in the statutory instruments and so on, to happen during this year. As a consequence, it's a reprofiling in spend, effectively. It doesn't affect the overall funding to be spent by the commission; it just starts to spend it later, basically."⁸⁷

Ein barn ni

Prydau ysgol am ddim yn ystod gwyliau ysgol

97. Rydym yn cefnogi penderfyniad Llywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2020 i warantu prydau ysgol am ddim i blant cymwys yn ystod gwyliau ysgol. Roedd y rhesymeg dros wneud hynny bryd hynny, yng nghyd-destun y pandemig COVID, yn glir ac yn argyhoeddiadol.

98. Credwn fod y rhesymeg dros barhau â darpariaeth prydau ysgol am ddim yn ystod gwyliau ysgol y tu hwnt i fis Chwefror 2023, yng nghyd-destun argyfwng costau byw, hefyd yn glir ac yn argyhoeddiadol. Roedd y Gweinidog i'w weld yn ofalus obeithiol y gellid dod o hyd i arian i wneud hynny. Rydym yn annog y Gweinidog yn gryf i wneud penderfyniad gweithredol i

⁸⁶ Llywodraeth Cymru, '**Penodi Cadeirydd Bwrdd y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil: Pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr**', Medi 2022, tudalen 4,

⁸⁷ **Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11/01/2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 128**

roi blaenoriaeth i ymestyn y rhaglen drwy gydol cyfnod y Gyllideb Ddrafft (h.y. hyd at a chan gynnwys gwyliau ysgol mis Chwefror 2024) i roi sicrwydd i deuluoedd ledled Cymru na fydd y cymorth hanfodol hwn yn dod i ben ar yr union bwynt y mae ei angen fwyaf ar blant.

Recommendation 3. Dylai Llywodraeth Cymru warantu y caiff y rhaglen prydau ysgol am ddim yn ystod gwyliau ysgol ei hymestyn drwy gydol cyfnod cyllideb 2023-24: hyd at a chan gynnwys gwyliau ysgol mis Chwefror 2024.

Y Grant Datblygu Disgyblion a Hanfodion Ysgol

99. O'r gwaith a wnawn yn ein hetholaethau a'n rhanbarthau ein hunain, gwyddom fod llawer o ysgolion yn dibynnu ar y cyllid ychwanegol a gânt o'r Grant Datblygu Disgyblion. Yn yr un modd, gwyddom fod yr arian a ddarperir i deuluoedd cymwys ar gyfer gwisg ysgol a chostau eraill sy'n gysylltiedig â'r ysgol drwy'r fenter Hanfodion Ysgol yn amhrisiadwy i lawer o deuluoedd.

100. Mae prydau ysgol am ddim i bawb mewn ysgolion cynradd wedi datgysylltu cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim â chymhwysedd ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion a Hanfodion Ysgol. Mae hyn yn peri heriau gwirioneddol i ysgolion a Llywodraeth Cymru fel ei gilydd i sicrhau bod teuluoedd sy'n gymwys i gael y grantiau hynny yn mynd drwy'r broses weinyddol angenrheidiol i hawlio'r arian hwnnw drostynt eu hunain ac i ysgol eu plentyn. Rydym yn croesawu'n gryf y ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi ailfrandio'r Grant Datblygu Disgyblion - Mynediad a'i enwi'n Hanfodion Ysgol, a'r ymgyrch gyfathrebu gysylltiedig i sicrhau bod teuluoedd cymwys yn gwybod sut i hawlio'r arian hwnnw.

101. Ar hyn o bryd, mae'r cyllid a ddyrennir i'r Grant Datblygu Disgyblion ac i Hanfodion Ysgol yn dod o fewn yr un Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion. Ni wyddom felly faint o Linell Wariant y Grant Datblygu Disgyblion sy'n ymwneud â Hanfodion Ysgol, a faint sy'n ymwneud â'r Grant Datblygu Disgyblion ei hun.

102. Gwyddom fod Llywodraeth Cymru yn gwahaniaethu rhwng cyllid a ddyrennir i'r ddau grant hynny at ei dibenion mewnol. Ac rydym yn cydnabod bod cael y ddwy ffrwd gyllid o fewn yr un Llinell Wariant yn y Gyllideb yn rhoi rhywfaint o hyblygrwydd i swyddogion o ran sut i ddefnyddio'r gronfa gyllid honno. Rydym yn cydnabod bod hyblygrwydd yn ddefnyddiol.

103. Fodd bynnag, mae ysgolion a theuluoedd fel ei gilydd yn wynebu pwysau costau byw sylweddol ar hyn o bryd. Mae'n gwbl hanfodol nad yw cyflwyno prydau ysgol am ddim i bawb mewn ysgolion cynradd yn cael effaith negyddol anfwriadol ar ysgolion a theuluoedd. At ddibenion cyflawni ein swyddogaeth graffu, ac er budd tryloywder yn fwy cyffredinol, credwn y dylai Llywodraeth Cymru greu Llinell Wariant ychwanegol yn y Gyllideb ar gyfer Hanfodion

Ysgol yn benodol o fewn Cam Gweithredu y Grant Datblygu Disgyblion (neu ba bynnag Gam Gweithredu y mae'n credu sy'n briodol), i'n galluogi ni ac eraill i olrhain y Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer ysgolion a Hanfodion Ysgol yn annibynnol ar ei gilydd.

Recommendation 4. Dylai Llywodraeth Cymru greu Llinell Wariant ychwanegol yn y Gyllideb o fewn Cam Gweithredu y Grant Datblygu Disgyblion (neu ba bynnag Gam Gweithredu y mae'n credu sy'n briodol) ar gyfer Hanfodion Ysgol, er mwyn gwahanu'n glir y cyllid a ddyrennir i'r Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer ysgolion ar y naill law, ac i Hanfodion Ysgol ar gyfer teuluoedd ar y llall.

Cyllid refeniw a chyfalaf ar gyfer ysgolion

104. Rydym yn nodi asesiad di-flewyn-ar-dafod y Gweinidog o effaith chwyddiant ar y gyllideb gyfalaf eleni o ran gwerth termau real y cyllid cyfalaf sydd ar gael i ysgolion. Rydym yn cydnabod bod hyn yn peri heriau gwirioneddol i ystadau ysgolion, ac rydym yn annog Llywodraeth Cymru i wneud yr hyn a all i gefnogi prosiectau unigol i sicrhau'r gwerth gorau am arian.

105. Fodd bynnag, rydym yn llai clir am effaith dyfarniad cyflogau athrawon ar gyfer blwyddyn academaidd 2022-23 ar gyllidebau ysgolion. Ein dealltwriaeth ni yw bod angen i gynnydd yn y Grant Cynnal Refeniw ar gyfer blynyddoedd ariannol 2022-23 a 2023-24 dalu am gost codiadau cyflog athrawon, yn ogystal â phwysau eraill ar ysgolion yn sgil chwyddiant. Fodd bynnag, awgrymodd y Gweinidog inni fod y cyllid ar gyfer dyfarniad cyflogau athrawon ar wahân i'r cyllid ar gyfer ysgolion yn fwy cyffredinol. Gofynnwn i Lywodraeth Cymru egluro hyn i ni, a nodi'n glir faint o gyllid ychwanegol y mae'n disgwyl y bydd ar gael i ysgolion yn 2023-24, o gymharu â 2022-23, ar ôl talu costau dyfarniad cyflogau athrawon ar gyfer (blwyddyn academaidd) 2022-23.

Recommendation 5. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru egluro'r canlynol:

- a oes rhaid i ysgolion dalu costau dyfarniad cyflogau athrawon blwyddyn academaidd 2022-23 gan ddefnyddio'r cyllid a roddwyd iddynt drwy'r Grant Cynnal Refeniw ar gyfer blynyddoedd ariannol 2022-23 a 2023-24; a
- faint o gyllid ychwanegol y mae'n disgwyl y bydd ar gael i ysgolion yn 2023-24 o gymharu â 2022-23 ar ôl talu costau dyfarniad cyflogau athrawon 2022-23.

Y Lwfans Cynhaliath Addysg (LCA)

106. Rydym yn deall bod Llywodraeth Cymru wedi wynebu heriau gwirioneddol o ran pennu ei Chyllideb Ddrafft ar gyfer 2023-24. Rydym yn cydnabod bod cynnal y cyllid ar y lefelau presennol heb os yn her ar draws y gyllideb gyfan.

107. Fodd bynnag, un peth yw cynnal lefelau cyllid o 2022-23 i 2023-24, ond peth arall yn llwyr yw peidio â diwygio dyfarniad y LCA na'r trothwy cymhwysedd ar ei gyfer am dros ddegawd. Caiff hyn effaith sylweddol ar y grant mewn dwy ffordd:

1. Bydd nifer sylweddol lai o ddisgyblion yn gymwys i dderbyn y grant yn 2023-24 nag yn 2011-12.
2. Bydd yr arian y mae disgyblion cymwys yn ei gael yn 2023-24 yn werth llawer llai nag yr oedd yn 2011-12.

108. Y llynedd, dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym mai un o'r rhesymau pam nad yw'r LCA wedi'i ddiwygio'n ddiweddar yw bod 80% o'r myfyrwyr a ymatebodd, mewn adolygiad yn 2014, wedi nodi y byddent wedi cofrestru ar eu cwrs heb LCA, ac mai dim ond i leiafrif o fyfyrwyr y mae'r LCA yn ffynhonnell hanfodol o gymorth ariannol.⁸⁸

109. Roedd yr adolygiad hwnnw wedi dyddio y llynedd, ac mae wedi dyddio hyd yn oed yn fwy eleni. Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu adolygiad annibynnol o'r LCA yng ngoleuni'r argyfwng costau byw.

Recommendation 6. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru gomisiynu adolygiad annibynnol o'r Lwfans Cynhaliath Addysg, a dylai gyflwyno adroddiad erbyn mis Rhagfyr 2023 fan bellaf. Dylai'r adolygiad ystyried:

- effaith y lwfans ar benderfyniadau dysgwyr i ymgymryd ag astudio pellach;
- effaith y lwfans ar ymgysylltiad dysgwyr â'u hastudiaethau ar ôl iddynt gofrestru;
- effaith y lwfans ar allu dysgwyr i ymdopi â phwysau ariannol yn fwy cyffredinol, yn benodol yng ngoleuni'r argyfwng costau byw;
- yng nghyd-destun yr uchod, beth ddylai'r meini prawf cymhwysedd a gwerth y cymorth ar gyfer y lwfans fod; a

⁸⁸ Llywodraeth Cymru, '**Ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion yn adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2022-23**', Mawrth 2022, tudalen 22-23

- sut y dylid cadw llygad ar y meini prawf a gwerth cymorth yn y dyfodol.

110. Yn y cyfamser, rydym yn argyhoeddedig bod gwerth gwirioneddol yn y LCA i ddysgwyr, yn enwedig yn yr hinsawdd economaidd cyfredol. Credwn y dylai Llywodraeth Cymru gynyddu'r trothwy ar gyfer cymhwysedd a gwerth y cymorth y mae dysgwyr cymwys yn ei gael. Wrth inni aros am wybodaeth fwy cyffredinol ynghylch yr adolygiad a grybwyllir uchod, gofynnwn i Lywodraeth Cymru gyhoeddi canfyddiadau'r gwaith y mae wedi'i wneud hyd yn hyn i "ddeal beth fyddai cyfradd y lwfans a'r trothwyon incwm heddiw, ar gyfer yr un gyfran o ddysgwyr o'i chymharu â 2004, a faint o gyllideb ychwanegol fyddai ei hangen".⁸⁹ Rydym hefyd yn gofyn i Lywodraeth Cymru ailystyried ei phenderfyniad i "gynnal" yr LCA sydd, i bob pwrpas, wedi arwain at LCA â llai o werth mewn termau real i lai o fyfyrwyr.

Recommendation 7. Rhaid i Lywodraeth Cymru gyhoeddi canfyddiadau'r gwaith y mae wedi'i wneud ers ei hymateb ym mis Mawrth 2022 i'n hadroddiad ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2022-23 er mwyn deall beth fyddai'r gyfradd lwfans a'r trothwyon incwm heddiw, ar gyfer yr un gyfran o ddysgwyr o'i chymharu â 2004, a faint o gyllideb ychwanegol y byddai ei hangen.

Recommendation 8. Rhaid i Lywodraeth Cymru ailystyried ei phenderfyniad i "gynnal" yr LCA sydd, i bob pwrpas, wedi arwain at LCA â llai o werth mewn termau real i lai o fyfyrwyr.

111. Rydym ni, ochr yn ochr â Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, yn cytuno y dylai Llywodraeth Cymru wneud yr hyn a all i sicrhau nad yw pobl ifanc yn colli'r anogaeth i gael mynediad i addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth ar ôl iddynt adael yr ysgol. Credwn fod y LCA yn arf pwysig i annog a chefnogi rhai pobl ifanc i aros mewn addysg. Ond rydym hefyd yn cydnabod na fydd y LCA o fudd i bob person ifanc, yn enwedig y rhai nad ydynt am ymgymryd ag astudiaethau pellach bryd hynny. Rydym yn ymuno ag Aelodau Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig i ofyn i Lywodraeth Cymru egluro ei dull polisi ehangach i annog pobl ifanc i aros mewn addysg, hyfforddiant neu i fynd i gyflogaeth, yn enwedig yng ngoleuni'r pwysau ariannol ar bobl ifanc a'u teuluoedd o ganlyniad i'r argyfwng costau byw.

Recommendation 9. Mae'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig yn argymhell ar y cyd y dylai Llywodraeth Cymru roi manylion i'r ddau bwyllgor ynghylch sut y mae Gweinidog yr Economi a Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

⁸⁹ Llywodraeth Cymru, 'Ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion yn adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2022-23', Mawrth 2022, tudalen 23

yn cydweithio ar gymhellion i bobl ifanc aros mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. Dylai hyn gynnwys unrhyw waith sy'n cael ei wneud o ganlyniad i'r cynnydd yng nghostau byw.

Cronfeydd wrth gefn ysgolion

112. Ym mis Mawrth 2022, roedd gan ysgolion gronfeydd wrth gefn sy'n uwch nag a fu ganddynt erioed o'r blaen. Rydym yn glir bod ysgolion unigol mewn sefyllfa dda i wneud penderfyniadau ynghylch sut y maent yn defnyddio'r cyllid sydd ar gael iddynt. Gall hyn gynnwys cadw rhywfaint o'u cyllid mewn cronfeydd wrth gefn at ddibenion penodol. Gwyddom o waith yn ein hetholaethau a'n rhanbarthau y gall ysgolion gadw cronfeydd wrth gefn yn fwriadol ac yn briodol am nifer o resymau, fel:

- arbed arian ar gyfer gwaith costus i atgyweirio a gwella eu hystadau;
- rhagweld buddsoddiadau rheolaidd mewn technoleg;
- rhagweld yr angen i adnewyddu neu foderneiddio adnoddau, dodrefn ac ati o bryd i'w gilydd;
- talu costau refeniw tymor byr a ragwelir (ee talu'r costau ychwanegol sy'n ymwneud â chyflenwi yn ystod absenoldeb staff); neu, yn hollbwysig,
- lliniaru effaith uniongyrchol setliadau cyllid tymor byr, newidiadau o ran demograffeg leol, neu ffactorau eraill y tu hwnt i reolaeth yr ysgol.

Fel mater o egwyddor gyffredinol, pan fo penderfyniadau o'r fath yn rhan o ymatebion rhesymol a chymesur arweinwyr ysgolion i'r heriau ariannol sy'n eu hwynebu, credwn y dylent allu gwneud y penderfyniadau hynny heb ymyrraeth ormodol gan yr awdurdod lleol.

113. Fodd bynnag, rydym yn aneglur ynghylch yr amrywiad rhwng awdurdodau lleol o ran yr hyblygrwydd a roddir i ysgolion wneud eu penderfyniadau eu hunain ynghylch sut y maent yn defnyddio'u cronfeydd wrth gefn, yn benodol mewn perthynas â gwelliannau cyfalaf i'w cyfleusterau, eu hystadau a'u hadnoddau. Rydym hefyd yn aneglur ynghylch i ba raddau y mae awdurdodau lleol yn monitro ac yn cymryd unrhyw gamau - er enghraifft defnyddio'r pwerau sydd ar gael iddynt o dan Reoliadau Ariannu Ysgolion (Cymru) 2010 - ynghylch lefelau'r cronfeydd wrth gefn sydd gan eu hysgolion. Credwn fod y graddau y mae gan ysgolion yr hawl i wneud eu penderfyniadau eu hunain am eu cronfeydd wrth gefn yn fater pwysig o bolisi cenedlaethol, yn enwedig yng nghyd-destun cyllid cyfalaf annigonol a chyllidebau refeniw heriol. Gofynnwn felly i Lywodraeth Cymru egluro ei barn am yr hyn y gall ac y dylai ysgolion ddefnyddio'u cronfeydd wrth gefn ar eu cyfer, a sut y mae'n disgwyl i awdurdodau lleol ryngweithio ag ysgolion mewn perthynas â'u cronfeydd wrth gefn, gan gynnwys sut y dylent

ddefnyddio’u pwerau statudol naill ai i gyfarwyddo ysgolion i wario cronfeydd wrth gefn dros ben neu adennill y cronfeydd hynny fel arall.

Recommendation 10. Rhaid i Lywodraeth Cymru egluro ei safbwynt polisi ar gronfeydd wrth gefn ysgolion. Yn benodol:

- pa ffrydiau cyllid y gall ysgolion eu trosglwyddo i gronfeydd wrth gefn;
- ar gyfer beth y gellir defnyddio cronfeydd wrth gefn ysgolion, ac yn benodol a all ysgolion eu defnyddio at ddibenion cyfalaf (gyda chydysyniad priodol yr awdurdod lleol perthnasol); a
- sut mae’n disgwyl i awdurdodau lleol weithio gydag ysgolion i daro cydbwysedd priodol rhwng ymreolaeth ysgolion a'r defnydd priodol o gronfeydd ar gyfer disgyblion ledled Cymru (gan gynnwys defnydd awdurdodau lleol o’u pwerau statudol i gyfarwyddo ysgolion i wario balansau uwchlaw trothwyon penodedig neu adennill y cronfeydd hynny fel arall).

114. Rydym yn pryderu y gallai amrywiad sylweddol yn swm y cronfeydd wrth gefn sydd gan ysgolion unigol fod yn arwydd o effaith anfwriadol fformiwlâu ariannu ysgolion awdurdodau lleol ar ysgolion â nodweddion penodol. Mae’r data blynyddol a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru yn cynnwys data ar nifer yr ysgolion sydd â chronfeydd wrth gefn uwchlaw cyfran benodol o’u cyllideb flynyddol a’r sefyllfa gymharol ar draws awdurdodau lleol ac mewn gwahanol sectorau (cynradd, uwchradd ac ati). Gofynnwn i Lywodraeth Cymru ystyried dadansoddi’r data hwnnw ymhellach, a hynny i ystyried lefelau cronfeydd wrth gefn ysgolion ar draws ystod o ffactorau eraill. Bydd y manylion ychwanegol hynny’n ein helpu ni, ac eraill, i sicrhau nad yw fformiwlâu ariannu ysgolion yn anfwriadol yn ffafrio rhai mathau o ysgolion.

Recommendation 11. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gallai’r data y mae’n eu cyhoeddi ar gronfeydd wrth gefn ysgolion ddangos lefelau cronfeydd wrth gefn ysgolion yn ôl ffactorau fel canran y disgyblion ar y gofrestr fel cyfran o gyfanswm capasiti disgyblion, canran y disgyblion ar y gofrestr y mae eu teuluoedd yn bodloni’r meini prawf ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion, canran y disgyblion ar y gofrestr sydd wedi’u nodi ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, natur wledig yr ysgol, ac unrhyw ffactorau eraill y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried yn addas.

Yr agenda Cymraeg 2050

115. Rydym yn rhannu siom y Gweinidog â chanlyniadau Cyfrifiad 2021. Rydym yn cytuno bod canlyniadau'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth ychydig yn fwy cadarnhaol. Ond yn ogystal â'r

ffaith bod y Swyddfa Ystadegau Gwladol ei hun yn rhybuddio na ddylid defnyddio'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth i fesur cynnydd tuag at darged Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050,⁹⁰ nid yw'r cynnydd cymedrol yn nifer y siaradwyr Cymraeg a adroddir yn adlewyrchu'r cynnydd yr oeddem wedi gobeithio'i weld. Yn amlwg, mae angen gwneud mwy neu ni fydd modd cyflawni Cymraeg 2050.

116. Er gwaethaf sicrwydd gan y Gweinidog fod cyllid ar gyfer Cymraeg mewn addysg yn ddigonol i ddiwallu uchelgais Cymraeg 2050, rydym yn pryderu nad yw'r dyraniadau presennol yn adlewyrchu nod y Llywodraeth o sicrhau bod pob plentyn yn cael cyfle i ddod yn siaradwyr Cymraeg.

Recommendation 12. Dylai Llywodraeth Cymru egluro manylion y gwariant trawslywodraethol a fydd yn cefnogi twf addysg cyfrwng Cymraeg a datblygiad sgiliau Cymraeg ym mhob lleoliad addysg.

117. Mae capasiti'r gweithlu yn rhwystr sylfaenol o ran gallu system addysg Cymru i chwarae ei rhan i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae'r rhaglen sabothol wedi profi'n ffordd effeithiol o ychwanegu at gapasiti Cymraeg y gweithlu. Yng ngoleuni canlyniadau siomedig y Cyfrifiad, rydym yn gofyn i Lywodraeth Cymru nodi'n fanylach ei chynlluniau ar gyfer hybu nifer yr ysgolion ac athrawon sy'n manteisio ar y rhaglen sabothol.

Recommendation 13. Rhaid i Lywodraeth Cymru nodi ei chynlluniau ar gyfer y Cynllun Sabothol Iaith Gymraeg 2023-24, gan gynnwys cyfanswm y dyraniadau cyllid ar gyfer y rhaglen, nifer yr ymgeiswyr a ragwelir, y cymorth - yn ariannol neu fel arall - a ddarperir i ysgolion i alluogi athrawon i ddilyn y cynllun sabothol, a sut mae'n monitro ac yn gwerthuso effeithiolrwydd y rhaglen.

Cymorth iechyd meddwl i fyfyrwyr addysg uwch

118. Fel rhan o'n gwaith o ran Cymorth Iechyd Meddwl mewn Addysg Uwch, clywsom am effeithiau ymarferol cyllid tymor byr ar gyflenwi cymorth iechyd meddwl yn y sector hwn, a'i effeithiolrwydd. Mae'n rhwystr o'r gallu i wneud y mwyaf o'r gwerth am bob punt sy'n cael ei gwario yn y maes hwn, yn ogystal â chreu rhwystrau o ran recriwtio a chadw'r staff cywir a dargyfeirio sylw at geisio cyllid oddi wrth y gwaith o gyflenwi gwasanaethau. Credwn ei bod yn amlwg bod angen symud at gyllid tymor hwy yn y maes hwn. Byddwn yn ymdrin â hyn yn

⁹⁰ Llywodraeth Cymru, '[Data am y Gymraeg o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth: Gorffennaf 2021 i Fehefin 2022](#)', 25 Hydref 2022

fanylach yn ein hadroddiad sydd ar ddod ynghylch Cymorth Iechyd Meddwl mewn Addysg Uwch.

Y Warant i Bobl Ifanc a Phrentisiaethau Gradd

119. Rydym yn croesawu'r sicrwydd a roddodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg fod swyddogion yn cydweithio ar draws timau gweinidogol a phortffolios cyllidebol. Ac rydym yn cytuno na ddylai ffurfioldeb dyraniadau portffolio cyllideb Llywodraeth Cymru lywio datblygiad polisi.

120. Fodd bynnag, nid yw'r llinellau atebolrwydd gweinidogol presennol sy'n ymwneud â'r Warant i Bobl Ifanc a phrentisiaethau gradd yn ddigon clir. Ein rôl ni fel aelodau o'r Pwyllgor hwn – ac yn wir fel Aelodau meinciau cefn y Senedd – yw dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif. Mae angen inni wybod pwy i'w dwyn i gyfrif am gyflawni polisi. Yn anffodus, fel aelodau'r Pwyllgor hwn ac o'r Senedd yn ehangach, rydym wedi cael ein symud o un Gweinidog i'r llall wrth geisio sicrwydd gan Lywodraeth Cymru ynghylch cyflawni'r polisiau allweddol hyn. Mae atebolrwydd yn hollbwysig, ac mae atebolrwydd yn dibynnu ar dryloywder. Rydym felly'n argymhell bod Llywodraeth Cymru yn nodi'n glir, drwy ddiagram neu fel arall, y strwythurau llywodraethu sy'n goruchwyllo'r gwaith o werthuso a chyflwyno rhaglenni y Warant i Bobl Ifanc a Phrentisiaethau Gradd.

Recommendation 14. Rhaid i Lywodraeth Cymru nodi'n glir, drwy ddiagram neu fel arall, y strwythurau llywodraethu sy'n goruchwyllo'r gwaith o werthuso a chyflwyno rhaglenni y Warant i Bobl Ifanc a Phrentisiaethau Gradd.

Ymchwil ac arloesi

121. Nid ydym yn credu bod digon o eglurder ar hyn o bryd ynghylch cydgysylltu cymorth ar gyfer ymchwil ac arloesi ar draws portffolios gweinidogol, ar draws y sectorau addysg uwch ac addysg bellach, a chyda Llywodraeth y DU.

122. Rydym hefyd yn nodi pryderon gan amryw o randdeiliaid ynghylch pwysau ar waith ymchwil ac arloesi, a'r angen am fuddsoddiad yn y maes hwn.

123. Edrychwn ymlaen felly at fonitro gwaith y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, ac yn arbennig ei Bwyllgor Ymchwil ac Arloesi, a sut y bydd yn arwain ar waith ym maes ymchwil ac arloesi yn y sector addysg drydyddol. Yn y cyfamser, rydym yn gofyn i Lywodraeth Cymru egluro i ni sut mae Cabinet Cymru a swyddogion Llywodraeth Cymru yn cefnogi, yn datblygu ac yn hyrwyddo ymchwil ac arloesi ar draws y sectorau addysg uwch ac addysg bellach mewn cydweithrediad â llywodraethau a sefydliadau addysg ledled y DU a thu hwnt.

Recommendation 15. Rhaid i Lywodraeth Cymru nodi'r canlynol:

- Sut mae Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â'r sectorau addysg bellach ac uwch i ddatblygu ei dull strategol o gefnogi a datblygu ymchwil ac arloesi.
- Y mecanweithiau y mae gweision sifil o wahanol adrannau Llywodraeth Cymru yn eu defnyddio i gydweithio i ddatblygu cynigion polisi a chyllid i Weinidogion Cymru eu hystyried.
- Y mecanweithiau y mae Gweinidogion perthnasol Cymru yn eu defnyddio i ystyried y cynigion gan eu swyddogion a chytuno arnynt, a sut y gwneir penderfyniadau ynghylch dyrannu cyllid ar draws eu portffolios.
- Sut mae Llywodraeth Cymru yn monitro ac yn gwerthuso gwerth am arian ei buddsoddiadau ym maes ymchwil ac arloesi.
- Sut mae Llywodraethau Cymru yn gweithio ochr yn ochr â llywodraethau eraill y DU a sefydliadau addysg ôl-16 y tu allan i Gymru mewn perthynas â'r uchod.

4. Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Y Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn ei gyfanrwydd

Crynodeb o'r newidiadau allweddol

Yn 2023-24, fel yn 2022-23, y Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol sydd â'r dyraniad ariannol mwyaf o holl Brif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru.

Mae'r £10.758 biliwn yn cynnwys (ac eithrio Gwariant a Reolir yn Flynyddol):

- £10.38 biliwn o refeniw, cynnydd o £392.5 miliwn (4.3 y cant) ar gyfer darparu gwasanaethau craidd y GIG mewn termau arian parod o gymharu â chyllideb derfynol 2022-23; a
- £375 miliwn o gyfalaf, cynnydd o £35.7 miliwn (10.5 y cant) o gymharu â chyllideb derfynol 2022-23.

O'r refeniw o £10.38 biliwn, dyrennir £9.61 biliwn ar gyfer darparu gwasanaethau craidd y GIG, gan gynnwys cyllid ar gyfer dyraniadau craidd y GIG (£8.6 biliwn), ymddiriedolaethau'r GIG, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Gwella Addysg Iechyd Cymru.

Mae'r cyllid hwn ar gyfer y Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn ei gyfanrwydd, nid dim ond y cyllid sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc.

Materion cyllidebol trawsbynciol⁴

124. Yn ei datganiad agoriadol, pwysleisiodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fod y flwyddyn hon wedi bod yn anodd iawn yn ariannol, gyda'r pwysau chwyddiant yn effeithio ar bawb, gan gynnwys sefydliadau fel y GIG a gwasanaethau cymdeithasol.⁹¹ Aeth y Gweinidog ymlaen i egluro bod Llywodraeth Cymru yn gofyn i fyrddau iechyd wneud penderfyniadau ar sail anghenion eu poblogaeth oherwydd bod gan rai byrddau iechyd heriau gwahanol o gymharu ag eraill, felly mae'n bwysig eu bod yn gwneud hynny ar sail leol. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn pennu blaenoriaethau a chanllawiau i'r byrddau iechyd eu dilyn. Dywedodd y Gweinidog wrthym, oherwydd bod hon yn "flwyddyn gyllideb anodd iawn", ei bod wedi bod yn llawer cliriach gyda'r byrddau iechyd am yr hyn y dylent ganolbwyntio arno. Ei chwe blaenoriaeth yw: oedi wrth drosglwyddo gofal, mynediad at ofal

⁹¹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18/01/2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 5

sylyfaenol, gofal brys, canser, iechyd meddwl, a rhestrau aros.⁹² Ymrwymodd y Gweinidog yn ddiweddarach i rannu'r canllawiau ysgrifenedig yr oedd hi wedi'u hanfon at y byrddau iechyd gyda ni.⁹³

Effaith yr argyfwng costau byw ar blant a phobl ifanc

125. Roedd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol eisoes wedi nodi yn ei thystiolaeth ysgrifenedig i ni fod "pobl ledled Cymru yn wynebu dyfodol ansicr o ganlyniad i'r argyfwng costau byw na welwyd ei debyg o'r blaen. Mae'r argyfwng hwn yn fwy tebygol o effeithio ar deuluoedd â phlant na theuluoedd hebddynt."⁹⁴ Fe ofynnem ni i'r Gweinidog sut y gall ein sicrhau y bydd Llywodraeth Cymru yn cyflawni'r canlyniadau y mae'n eu bwriadu ar gyfer plant.

126. Cydnabu'r Gweinidog y bydd pwysau chwyddiant yn cael effaith ar bawb. Eglurodd, yn ogystal â pharhau i ganolbwyntio ar wasanaethau rheng flaen, fod y llywodraeth wedi darparu cyllid ychwanegol ar gyfer cynlluniau fel Dechrau'n Deg, y cynnig gofal plant, prydau ysgol am ddim a'r gronfa cymorth dewisol, sydd oll yn cefnogi plant a phobl ifanc.⁹⁵ Aeth y Gweinidog ymlaen i sôn am £6.9 miliwn o gyllid ar gyfer y cynllun Cychwyn Iach, cynllun incwm isel y GIG, a'r Cynllun Gwên – bydd y cynlluniau hyn yn targedu plant mewn teuluoedd incwm isel.⁹⁶

Iechyd emosiynol ac iechyd meddwl

Egluro newidiadau i'r gwariant ar iechyd emosiynol ac iechyd meddwl

127. Mae effaith y pandemig ar iechyd meddwl a llesiant plant a phobl ifanc yng Nghymru wedi'i chofnodi'n dda gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, ymhlith eraill.⁹⁷ Mae tystiolaeth ysgrifenedig y Gweinidog yn nodi'r canlynol:

"Byddwn yn parhau i flaenoriaethu buddsoddiad mewn iechyd meddwl a lles, a ddangosir gan y ffaith ein bod, er gwaethaf pwysau parhaus ar y gyllideb, wedi gwarchod agweddau iechyd meddwl a lles y gyllideb. Byddwn yn rhoi blaenoriaeth i weithredu'r cynllun gweithlu iechyd meddwl, ar gyfer gwasanaeth pob oed [...] Yn Fframwaith Cynllunio'r GIG 2023-2026, mae

⁹² Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18/01/2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 7.

⁹³ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18/01/2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 100.

⁹⁴ Llywodraeth Cymru, 'Craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24', 19/12/2022, tudalen 1.

⁹⁵ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18/01/2023, Cofnod y Trafodion, paragraffau 23-25.

⁹⁶ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18/01/2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 27.

⁹⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, WGDB 23-24.07. Iechyd Cyhoeddus Cymru, tudalen 8.

*iechyd meddwl a CAMHS wedi cael eu diffinio fel un o'r blaenoriaethau Gweinidogol a bydd hyn yn ein galluogi i asesu effaith dyraniadau."*⁹⁸

128. Mae'r dystiolaeth ysgrifenedig yn dangos cynnydd o £25 miliwn mewn gwariant ar iechyd meddwl ar gyfer 2023-24, gan adeiladu ar y £50 miliwn a ddyrannwyd yn 2022-2023 ac yn cynyddu i £90 miliwn erbyn 2024-25. Fodd bynnag, mae'r ffigurau braidd yn aneglur; mae tablau llinellau gwariant yn y gyllideb ar gyfer y Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn dangos gwariant o £88.2 miliwn yng nghyllideb derfynol 2022-23 ac £83.6 miliwn ar gyfer 2023-24 ar bolisiau a deddfwriaeth iechyd meddwl.⁹⁹

129. Fe wnaethom ofyn i'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant egluro inni faint o gyllid ychwanegol sydd wedi'i ddarparu ar gyfer iechyd meddwl plant a phobl ifanc dros y ddwy flynedd nesaf, a sut y bydd y cyllid hwnnw'n cefnogi'r dull system gyfan o ymdrin ag iechyd meddwl. Esboniodd y Gweinidog:

*"Welsh Government committed to provide £50 million extra in this financial year, rising to £75 million and then to £90 million in the third year. I'm really pleased that, despite the huge financial constraints we're facing, the Welsh Government has honoured that programme for government commitment to mental health."*¹⁰⁰

130. Esboniodd fod y rhan fwyaf o'r cyllid ar gyfer iechyd meddwl yn mynd i'r GIG. Fodd bynnag, mae'r cyllid wedi'i neilltuo ar gyfer iechyd meddwl, ac mae hi wedi bod yn glir iawn, ym maes iechyd meddwl, fod gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed yn flaenoriaeth.¹⁰¹ Dywedodd wrthym fod swyddogion, yr uned gyflawni a'r byrddau iechyd unigol wedi cynnal lluo o gyfarfodydd i sicrhau bod ffocws ar gyflawni ym maes iechyd meddwl. Aeth ymlaen i ddweud:

"So, I don't think there's much wriggle room, really, for health boards in terms of not delivering on these priorities. I have been crystal clear that children and young people are my top priority, and I feel very strongly that, if we get it right for children and young people in mental health, we will get it right for

⁹⁸ Llywodraeth Cymru, 'Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg', 12/12/2022, tudalen 17

⁹⁹ Llywodraeth Cymru, 'Llinellau gwariant yn y gyllideb', 13/12/2022

¹⁰⁰ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18/01/2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 36

¹⁰¹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18/01/2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 36

*everyone. Everything that I do as a Minister is focused on delivering for children and young people.*¹⁰²

131. Aeth y Dirprwy Weinidog ymlaen i nodi bod Llywodraeth Cymru yn pryderu'n arbennig am faterion gweithlu. Dywedodd wrthym fod Addysg a Gwella Iechyd Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru wedi datblygu cynllun gweithlu iechyd meddwl, a dywedodd y byddai hyn heb os o fudd i blant a phobl ifanc. Tynnodd sylw hefyd at gyllid o £14.4 miliwn ar gyfer y dull ysgol gyfan, a ariennir yn gyfartal gan y Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Prif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg, y gwaith o ddatblygu cynlluniau peilot noddfa, a'r gwasanaeth 111 'pwysu 2 ar gyfer iechyd meddwl'.¹⁰³

Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS)

132. Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd y Dirprwy Weinidog fod CAMHS yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru. Yn benodol, mae'r papur yn ymrwmo i weithredu'r argymhellion a ddaw o adolygiad Uned Gyflawni Llywodraeth Cymru o CAMHS ac i wella'r pontio o CAMHS i Wasanaethau Iechyd Meddwl Oedolion (AMHS).¹⁰⁴

133. Bu gostyngiad sylweddol yn y nifer sy'n aros am apwyntiad claf allanol cyntaf CAMHS arbenigol. Mae'r data diweddaraf (Hydref 2022) yn dangos 21 o blant yn aros dros bedair wythnos, o gymharu â 544 ym mis Hydref 2021.¹⁰⁵ Fe ofynnem ni i'r Dirprwy Weinidog pa mor hyderus oedd hi bod modd cynnal y gwelliannau hyn, ac a fu unrhyw effaith ar amseroedd aros am apwyntiadau dilynol o'r cyswllt cychwynol. Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym fod yr holl fyrddau iechyd yn gweithio ar lwybrau gwella, ac ailadroddodd y byddai cyllid ychwanegol yn cael ei ddarparu i weithredu unrhyw argymhellion o adolygiad yr Uned Gyflawni. Dywedodd wrthym fod heriau o ran perfformiad o hyd o ran pobl ifanc dan 18 oed, gwasanaethau iechyd meddwl sylfaenol lleol, ac atgyfeirio at ymyriad Rhan 1(b) o'r Mesur. Ychwanegodd fod cyflawni newid cynaliadwy yn dibynnu ar y gweithlu. Dywedodd fod cynllun gweithlu yn cael ei ddatblygu a fydd yn cynnwys mesurau tymor byr a thymor hir i wneud y system yn gynaliadwy.¹⁰⁶

Iechyd meddwl amenedigol

¹⁰² Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18/01/2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 97

¹⁰³ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18/01/2023, Cofnod y Trafodion, paragraffau 35-40

¹⁰⁴ Llywodraeth Cymru, 'Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg', 21/12/2022, tudalen 18

¹⁰⁵ StatsCymru, 'Llybrau cleifion CAMHS sy'n aros am apwyntiad cyntaf yn ôl mis ac wythnosau wedi'u grwpio'

¹⁰⁶ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18/01/2023, Cofnod y Trafodion, paragraffau 35-43

134. Mae'r unig Uned Mamau a Babanod cleifion mewnol yng Nghymru yn y de. Yn 2017, fe wnaeth y Pwyllgor a'n rhagflaenodd annog Llywodraeth Cymru i "ymgysylltu fel mater o frys â GIG Lloegr i drafod opsiynau ar gyfer creu canolfan yn y gogledd-ddwyrain".¹⁰⁷ Erbyn i ni graffu ar Gyllideb Ddrafft 2022-23, dros bedair blynedd yn ddiweddarach, clywsom fod cyllid eisoes wedi'i nodi i ddatblygu'r gwasanaeth hwnnw.¹⁰⁸ Yna ym mis Medi 2022, cawsom ddiweddiariad gan y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant yn dweud wrthym fod Llywodraeth Cymru yn "disgwyl gwneud cynnydd ar gerrig milltir pwysig", gan gynnwys "datblygu'r amserlen ar gyfer comisiynu mynediad i Uned Mamau a Babanod ar gyfer pobl sy'n byw yn y Gogledd".¹⁰⁹

135. Mae tystiolaeth ysgrifenedig y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ni yn nodi y bydd gwaith "yn parhau i wella gwasanaethau amenedigol yn unol â'r Coleg Brenhinol Safonau Seiciatreg a gwella mynediad at therapïau seicolegol".¹¹⁰ Fe ofynnem ni i'r Dirprwy Weinidog am sicrwydd bod pobl ledled Cymru yn mynd i gael mynediad cyfartal at wasanaeth iechyd meddwl amenedigol. Cadarnhaodd y Dirprwy Weinidog y dylai'r uned yn ne Cymru barhau a'i bod yn darparu gofal priodol. Dywedodd wrthym ei bod yn ymrwymo'n gryf i wneud popeth posibl i gyflwyno darpariaeth uned mamau a babanod yn y gogledd, a'i bod yn cael diweddiariadau misol gan Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru. Ni wnaeth y Dirprwy Weinidog roi unrhyw amserlenni penodol ar gyfer cyflwyno'r Uned Mamau a Babanod.

136. Pan wnaethom ni ofyn i'r Dirprwy Weinidog egluro beth sy'n digwydd i drigolion Cymru sydd angen uned mamau a babanod yn y gogledd, dywedodd wrthym y byddent yn cael cynnig uned yn Lloegr neu yn ne Cymru, a chydabu nad oedd hynny'n ddelfrydol.¹¹¹

Iechyd corfforol

Pwysau Iach: Cymru Iach

137. Fel yn 2022-23, mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu £6.6m yn 2023-24 i gefnogi'r gwaith o gyflawni Pwysau Iach: Cymru Iach a Chynllun Cyflawni 2022-24, gan gynnwys:

- £2.9m i gyflwyno llwybr rheoli pwysau Cymru gyfan;

¹⁰⁷ Senedd Cymru, 'Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: Iechyd meddwl amenedigol yng Nghymru', Hydref 2017, tudalen 10

¹⁰⁸ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 13/01/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 155

¹⁰⁹ Llywodraeth Cymru, 'Diweddiariad ar argymhellion yr ymchwiliad iechyd meddwl amenedigol', 23/09/2022

¹¹⁰ Llywodraeth Cymru, 'Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg', 21/12/2022, tudalen 18

¹¹¹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18/01/2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 104

- £600,000 i Iechyd Cyhoeddus Cymru ddatblygu a chefnogi cynlluniau peilot Plant a Theuluoedd yng Nghaerdydd, Merthyr Tudful ac Ynys Môn, gyda ffocws allweddol ar ymyrraeth ac atal yn y cartref.

138. Roedd adroddiad y Pwyllgor ar gyllideb ddrafft 2022—23 yn croesawu'r buddsoddiad o £6.6 miliwn ond roedd yn pryderu "nad yw Llywodraeth Cymru yn rhoi digon o sylw i atal gordewdra ymhlith plant rhag datblygu yn y lle cyntaf".¹¹² Yn ei hymateb, dywedodd Llywodraeth Cymru "Mae strategaeth Llywodraeth Cymru, Pwysau Iach: Cymru Iach, yn ei gwneud yn ofynnol i'r Llywodraeth alluogi ein plant a'n pobl ifanc i gael mynediad i leoliadau addysg lle mae iechyd corfforol a meddyliol yn parhau i fod yn flaenoriaeth drwy hybu iechyd a lles ar bob cyfle".¹¹³

139. Fe ofynnem ni i'r Dirprwy Weinidog a oedd £6.63 miliwn yn ddigon i fynd i'r afael â phroblem gordewdra yng Nghymru. Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym mai dim ond rhan o'r arian y mae'r byrddau iechyd yn ei ddefnyddio yn y maes hwn yw'r £6.63 miliwn, a bod disgwyl iddynt ddefnyddio'u hadnoddau craidd hefyd, a ategir gan eu dyletswyddau o dan y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Esboniodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru yn monitro sut mae'r byrddau iechyd yn gwario'u cyllid drwy ddiweddariadau rheolaidd am ddatblygu gwasanaethau lleol. Daw hyn o dan fwrdd gweithredu lefel uchel iawn Pwysau Iach: Cymru Iach, y mae hi'n gadeirydd arno.¹¹⁴

Gwasanaethau anhwylderau bwyta

140. Yn ei phapur tystiolaeth, mae'r Gweinidog Gwasanaethau Cymdeithasol yn dweud bod "Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i barhau i wella gwasanaethau a dyrannwyd £2.5 miliwn ychwanegol o 2022/23 i ddarparu gwasanaethau anhwylderau bwyta".¹¹⁵ Fe ofynnem ni i'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant sut y caiff y cyllid hwnnw ei ddefnyddio i wella gwasanaethau anhwylderau bwyta. Esboniodd y Gweinidog:

¹¹² Senedd Cymru, 'Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2022-2023', Chwefror 2022, tudalen 32

¹¹³ Llywodraeth Cymru, 'Ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion yn adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2022-23.', Mawrth 2022, tudalen 5

¹¹⁴ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18/01/2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 63

¹¹⁵ Llywodraeth Cymru, 'Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg', 21/12/2022, tudalen 18

"That additional funding is going to be targeted at continuing to meet the four-week waiting time for eating disorder services. We're making good progress; we've got the clinical lead now in place."¹¹⁶

Dyweddod wrthym fod gan ogledd Cymru dîm cyflym, lle mae'r mwyafrif helaeth o gleifion yn cael eu trin yn y gymuned. Pwysleisiodd mai'r 'safon aur' yw trin pobol yn eu cartrefi a chyda'u teuluoedd. Fodd bynnag, mae Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru hefyd yn edrych ar ddarpariaeth cleifion mewnol i oedolion, sydd wedi'i gynllunio dros y ddwy i dair blynedd nesaf.¹¹⁷

Diogelu plant sydd â phrofiad o ofal

141. Er bod y rhan fwyaf o'r gwariant cyhoeddus ar ofal cymdeithasol plant, diogelu a phlant sydd â phrofiad o ofal yn dod o'r Grant Cynnal Refeniw, sy'n rhan o Brif Grŵp Gwariant Llywodraeth Leol (MEG), y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidogion Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n gyfrifol am ganlyniadau i blant yr effeithir arnynt gan y meysydd polisi hyn.

142. Yn eu hymatebion i ymgynghoriad y Pwyllgor Cyllid ar Gyllideb Ddrafft 2023-24, cododd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Barnardo's Cymru ill dau bryderon ynghylch pa mor fregus yw'r gweithlu gofal cymdeithasol plant a'r pwysau ariannol dilynol ar awdurdodau lleol yn sgil defnyddio staff asiantaeth i fynd i'r afael â phrinder staff, gan annog Llywodraeth Cymru i fuddsoddi mewn ymdrechion newydd i sicrhau bod gofal cymdeithasol plant yn cael ei weld fel gyrfa ddeniadol sy'n talu'n dda, ac yn un sy'n cael ei pharchu a'i chefnogi. Maent hefyd yn codi pryder ynghylch diffyg lleoliadau maethu a chost uchel gofal pwrpasol.¹¹⁸

143. Fe ofynnem ni i'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol sut y byddai'n ymateb i bryderon mor sylweddol ynghylch ariannu gweithlu bregus sydd ar y rheng flaen a lliniaru risgiau diogelu plant.

144. Cydnabu'r Dirprwy Weinidog fod y gweithlu gofal cymdeithasol dan straen, gydag anawsterau recriwtio a chadw. Dywedodd wrthym:

The social services workforce grant was introduced in 2018-19, and in 2023-24 it's £45 million. This grant is used to support a range of workforce-related interventions in local authorities, in children's services, in staffing challenges,

¹¹⁶ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18/01/2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 66

¹¹⁷ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18/01/2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 67

¹¹⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, WGDB_23-24 29 WLGA, tudalennau 8-9 a Tystiolaeth ysgrifenedig, WGDB_23-24 17 Barnardo's Cymru

services for older people and dementia care. We also provide £7.15 million for the sector through a Social Care Wales workforce development grant, and that's administered by Social Care Wales through the local authorities.

Aeth ymlaen i dynnu sylw at yr ymyriadau a ganlyn:

- Cynllun gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru ar gyfer y proffesiwn gwaith cymdeithasol, sy'n cynnwys fframwaith ôl-gymhwyso sy'n anelu at wneud y proffesiwn gwaith cymdeithasol mor ddeniadol â phosibl.
- Pecyn cyllid o bron £10 miliwn i helpu myfyrwyr gwaith cymdeithasol israddedig ac ôl-raddedig yng Nghymru. Bydd y bwrsari i fyfyrwyr yn cynyddu o £6 miliwn i £10 miliwn dros y tair blynedd nesaf.
- Gweithio gyda'r Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol ac awdurdodau lleol i wella'r defnydd o staff asiantaeth gyda'r bwriad o leihau'r ddibyniaeth awdurdodau lleol ar staff asiantaeth, gan gydnabod bod angen staff asiantaeth pan fydd argyfwng yn codi.
- Gweithio gyda'r sector gofal cymdeithasol i gefnogi cyflogwyr gofal cymdeithasol i recriwtio gweithwyr o dramor.¹¹⁹

Gwasanaethau i blant sydd â phrofiad o ofal

145. Yn y Rhaglen Lywodraethu, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i "ystyried cyfleoedd radical i ddiwygio'r gwasanaethau presennol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac yn gadael gofal".¹²⁰ Rydym wrthi'n cymryd tystiolaeth mewn ymchwiliad sy'n edrych ar sut y gallai'r diwygio radical hwnnw edrych.¹²¹ Fe ofynnem ni gyfres o gwestiynau i'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch sut y caiff y diwygio radical hwnnw ei ariannu.

146. Dywedodd un o swyddogion Llywodraeth Cymru fod tair ffrwd ariannu allweddol sy'n dod ynghyd, sef: y gronfa newid ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, y gronfa diwygio radical, a chyllid ar gyfer dileu elw o ofal maeth.¹²²

¹¹⁹ [Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18/01/2023, Cofnod y Trafodion, paragraffau 107-111, 118, a 122-123](#)

¹²⁰ Llywodraeth Cymru, 'Y Rhaglen Lywodraethu – Diweddariad', tudalen 3

¹²¹ Senedd Cymru, 'Gwasanaethau i blant sydd wedi bod mewn gofal: archwilio diwygio radical'

¹²² [Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18/01/2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 131](#)

Y gronfa newid ar gyfer plant sy'n derbyn gofal (y 'gronfa buddsoddi i arbed' yn flaenorol)

147. Mae cynllun gwella cyllideb Llywodraeth Cymru yn dweud bod y 'gronfa Buddsoddi i Arbed' wedi newid pwyslais er mwyn "canolbwyntio ar fwrw ymlaen ag ymrwymïadau ein Rhaglen Lywodraethu sy'n ymwneud â gwella canlyniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ledled Cymru".¹²³ Fe ofynnem ni i'r Dirprwy Weinidog egluro sut y mae'r Gronfa Buddsoddi i Arbed yn cael ei defnyddio.

148. Dywedodd y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol wrthym fod y gronfa bellach wedi'i neilltuo ar gyfer plant, a'i bod felly wedi'i hailenwi fel y 'gronfa newid ar gyfer plant sy'n derbyn gofal'. Esboniodd fod y gyllideb yn parhau i fod yn y Prif Grŵp Gwariant Cyllid a Llywodraeth Leol, a'i bod ar gael i Drysorlys Cymru a swyddogion polisi gofal cymdeithasol i gyflwyno cynigion ar ei chyfer. Dywedodd wrthym, er ei bod yn anodd rhagweld y swm a fydd ar gael yn y gronfa bob blwyddyn, y rhagwelir y bydd y symiau canlynol ar gael:

- £3.6 miliwn yn 2023-24
- £4.3 miliwn yn 2024-25
- £2.8 miliwn yn 2025-26

149. Cadarnhaodd y Dirprwy Weinidog fod cyllid o £870,000 eisoes wedi'i gytuno ar gyfer cynllun peilot tair blynedd, sy'n cynnwys gofalywr maeth cymorth teulu arbenigol â hyfforddiant estynedig, a fydd yn darparu cymorth dwys i deuluoedd. Dywedodd y bydd hyn yn cadw'r plant gartref, gyda gofalywr maeth yn mynd atynt ac yn rhoi cymaint o gymorth ag y gallant. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn gobeithio darparu £5.6 miliwn i Maethu Cymru, £1.6 miliwn i'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol ac £869,000 ar gyfer eiriolaeth rhieni.

Y gronfa diwygio radical

150. Mae gennym ddiddordeb arbennig felly mewn dyraniad yn y Gronfa Diwygio Gofal Cymdeithasol ar gyfer diwygio radical ar wasanaethau plant, sydd wedi cynyddu o £3 miliwn yn 2022-23 i £10 miliwn yn 2023-24. Fe ofynnem ni ofyn i'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol egluro'n union ar gyfer pa ddiwygio newydd yr oedd y £3 miliwn, a pha ddiwygio y bwriedir i'r £7 miliwn ychwanegol ei ariannu.

¹²³ Llywodraeth Cymru, Cynllun Gwella'r Gyllideb 2023-24, Rhagfyr 2022, tudalen 4

151. Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym fod y gwaith ar y rhaglen drawsnewid wedi'i gefnogi'n wreiddiol gan £3 miliwn, a bod hynny wedi cynyddu i £7 miliwn yn 2023-24. Aeth ymlaen i ddweud:

"That will build on the work that we've been doing so far on preventative interventions for families with children on the edge of care, and that will include a national practice framework where we hope we'll have consistent practice throughout Wales. We'll increase provision for children with complex needs on a regional basis and also strengthen corporate parenting [...]"¹²⁴

Cyllid ar gyfer dileu elw o ofal maeth

152. Mae Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru yn ymrwmo i "[d]dileu elw preifat o ofal plant sy'n derbyn gofal".¹²⁵ Ar 17 Awst 2022, lansiodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar ddeddfwriaeth arfaethedig i gyflawni'r ymrwymiad. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 7 Tachwedd 2022. Adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad wrthi'n cael eu hadolygu.¹²⁶

153. Dywedodd un o swyddogion Llywodraeth Cymru wrthym mai'r gwariant ar ddileu elw o ofal maeth fydd £10 miliwn ym mlwyddyn ariannol 2022-23, £16 miliwn yn 2023-24, ac yn codi i £19 miliwn yn 2024-25.¹²⁷

Y lwfans sylfaenol cenedlaethol ar gyfer gofalwyr maeth a gofalwyr sy'n berthnasau

154. Mae tystiolaeth ysgrifenedig y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ni yn cyfeirio at "adolygiad cynhwysfawr o'r Lwfans Sylfaenol Cenedlaethol, sef y lwfans craidd sylfaenol y mae gofalwyr maeth a gofalwyr sy'n berthnasau yn ei dderbyn i dalu am y costau sy'n gysylltiedig â gofalu am y plant yn eu gofal".¹²⁸ Cynhaliwyd yr adolygiad cyntaf yn 2020. Fe ofynnem ni i'r Dirprwy Weinidog pam y bu oedi cyn bwrw ymlaen â chanfyddiadau'r adolygiad hwnnw, a fyddai unrhyw newidiadau i gyfraddau yn llythyr y Lwfans Sylfaenol Cenedlaethol sydd ar ddod ar gyfer 2023-26, ac a fyddai'r cyfraddau newydd yn berthnasol i Ddarparwyr Maethu Annibynnol yn ogystal ag awdurdodau lleol.

¹²⁴ **Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18/01/2023, Cofnod y Trafodion, paragraffau 113-115**

¹²⁵ Llywodraeth Cymru, '**Y Rhaglen Lywodraethu – Diweddariad**', tudalen 3

¹²⁶ Llywodraeth Cymru, '**Newidiadau arfaethedig i'r ddeddfwriaeth ar ofal cymdeithasol a gofal iechyd parhaus y GIG**', 07/11/2022

¹²⁷ **Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18/01/2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 131**

¹²⁸ Llywodraeth Cymru, '**Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**', 21/12/2022, tudalen 40

155. Cadarnhaodd y Dirprwy Weinidog wrthym y disgwylir y llythyr gyda'r cyfraddau newydd yn yr wythnosau nesaf, ac y bydd yn berthnasol i ofalwyr maeth awdurdodau lleol a gofalwyr maeth annibynnol. Dywedodd wrthym fod ymateb i COVID wedi arwain at oedi o ran ymateb i ganfyddiadau'r adolygiad, a bod Llywodraeth Cymru yn cyfrifo costau gofalu am blentyn, a oedd yn rhan o'r adolygiad. Aeth ymlaen i drafod gofalwyr sy'n berthnasau:

*"[...] we have been using kinship carers much more frequently now than we ever did in the past, and it's something that we support strongly. Because we do feel that if a child can't live in his or her home, they should be with someone in the family, if possible. And there has been a lot of concern about the rates that are paid to kinship carers, and we are hoping to harmonise those as well, to make a much more comprehensive package."*¹²⁹

156. Dywedodd wrthym fod ariannu gwasanaethau maethu yn bwnc eithaf cymhleth, a'i fod yn cynnwys tair elfen:

- Lwfans i'r plentyn, gan ddefnyddio fframwaith y lwfans sylfaenol cenedlaethol, a bennir ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru;
- Ffi ychwanegol am faethu, sef taliad y gofalwyr maeth am ymgymryd â'r rôl, a all amrywio'n aruthrol ar draws y gwahanol awdurdodau lleol yng Nghymru, gyda'r gwasanaeth maethu yn ei bennu; a
- Thaliadau ychwanegol, ar gyfer adegau fel y Nadolig neu achlysuron arbennig.

Aeth ymlaen i egluro:

*"the 22 local authorities provide different payment levels to their foster carers, and often, it's very complex differences and quite substantial differences. So, Foster Wales are working on harmonising all the payments made to foster carers, and the national minimum allowance is one of those payments."*¹³⁰

Dechrau'n Deg a'r cynnig gofal plant

157. Mae papur tystiolaeth Llywodraeth Cymru yn nodi y bydd £10 miliwn yn cael ei ddyrannu i helpu i ehangu Dechrau'n Deg er mwyn cyflawni ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i ehangu

¹²⁹ [Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18/01/2023, Cofnod y Trafodion, paragraffau 134-136](#)

¹³⁰ [Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18/01/2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 134](#)

darpariaeth y blynyddoedd cynnar yn raddol i gynnwys pob plentyn dwy oed.¹³¹ Mae'r cyllid ar gyfer Dechrau'n Deg yn rhan o'r Grant Plant a Chymunedau, sef grant o £171 miliwn a gyfunodd saith grant a oedd wedi'u neilltuo'n flaenorol.

158. Fe ofynnem ni ofyn i'r Dirprwy Weinidog sut y gallai hi warantu y caiff yr arian hwn ei wario ar blant Dechrau'n Deg. Cadarnhaodd y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol inni fod y cyllid ar gyfer ehangu Dechrau'n Deg wedi'i neilltuo fel rhan o'r Grant Plant a Chymunedau, yn wahanol i weddill y grant. Fe'n sicrhodd fod y cyllid hwnnw'n cael ei warchod yn ofalus iawn ac y caiff ei ddefnyddio at y dibenion y'i bwriadwyd ar eu cyfer.¹³²

159. Yn ei ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor Cyllid ar Gyllideb Ddrafft 2023-24, croesawodd Chwarae Teg fuddsoddiad ychwanegol Llywodraeth Cymru mewn plant. Fodd bynnag, ychwanegodd fod cyfyngiad amlwg ar ehangu'r ddarpariaeth i blant dwy oed drwy Dechrau'n Deg gan mai dim ond darpariaeth ran-amser y mae'n ei darparu a'i fod wedi'i gyfyngu i raddau helaeth i rai codau post penodol. Aeth ymlaen i ddweud bod yn rhaid i Dechrau'n Deg esblygu i sicrhau bod rhieni plant dwy oed yn cael mynediad at yr un 30 awr o gymorth ag y gall rhieni plant tair oed ei gael drwy'r Cynnig Gofal Plant.¹³³ Fe ofynnem ni i'r Dirprwy Weinidog pa mor realistig yw'r galwadau am ehangu'r cynnig gofal plant yn y dyfodol.

160. Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym mai proses yw ehangu Dechrau'n Deg, gan nodi:

"I hope the organisations that are giving this evidence [...] recognise that expanding Flying Start in these difficult circumstances shows the commitment of the Welsh Government, and it shows the commitment of the co-operation agreement, to achieve more for children."

Aeth ymlaen i gadarnhau bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i ehangu'r cynnig gofal plant yn raddol, gyda'r bwriad o gyrraedd pob plentyn dwy oed yn y pen draw. Mae'r gwaith ehangu hwn wedi dechrau drwy fuddsoddi arian yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig. Dywedodd wrthym fod Llywodraeth Cymru yn ymgymryd â cham cyntaf y gwaith ehangu ar hyn o bryd, ac y bydd yr ail gam yn dechrau ym mis Ebrill.¹³⁴

161. Hefyd, tynnodd y Dirprwy Weinidog sylw at y cynnig gofal plant i blant tair a phedair oed, sydd, ers mis Medi 2022, wedi'i ehangu i gynnwys plant rhieni mewn addysg a hyfforddiant i

¹³¹ Llywodraeth Cymru, **Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**, 21/12/2022, tudalen 45

¹³² **Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18/01/2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 140**

¹³³ **Tystiolaeth ysgrifenedig, WGDB 23-24.10 Chwarae Teg, tudalen 4**

¹³⁴ **Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18/01/2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 146-147**

lenwi rhai o'r bylchau yn y ddarpariaeth bresennol. Cadarnhaodd hefyd fod y gyfradd fesul awr ar gyfer gofal plant wedi cynyddu o £4.50 i £5.¹³⁵

Tlodi plant

162. Yn ôl yr Arsyllfa ar Hawliau Dynol Plant a Chanolfan Gyfreithiol y Plant Cymru, mae mwy na 34 y cant o blant Cymru yn byw mewn tlodi. Mae'n galw am strategaeth a chynllun gweithredu cydlynol a thrawslywodraethol ar dlodi plant sy'n dangos yn glir sut y bydd polisiau ar draws portffolios gweinidogol yn cael eu hariannu'n ddigonol i fynd i'r afael â thlodi plant, a hynny ar fyrder.¹³⁶ Mae Archwilio Cymru¹³⁷ a Chomisiynydd Plant Cymru ill dau'n cytuno. Mewn gohebiaeth ddiweddar atom, ysgrifennodd y Comisiynydd Plant:

"I would like to see Welsh Government produce a Child Poverty Action Plan which would enable Welsh Government to focus efforts and resources on achieving measurable targets and outcomes through specific and time-bound actions. This would also enable Welsh Government itself as well as stakeholders like myself to measure and track progress towards these outcomes and therefore to hold Welsh Government to account."¹³⁸

163. Fe ofynnem ni i'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol pryd y caiff strategaeth tlodi plant newydd Llywodraeth Cymru ei chyhoeddi, ac a fydd yn cynnwys cynllun gweithredu a chynlluniau gwariant. Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym y bydd y strategaeth yn nodi'r amcanion hirdymor ar gyfer mynd i'r afael â thlodi plant yng Nghymru.¹³⁹

164. Fe bwysom ni ar y Dirprwy Weinidog i ddweud a fydd cynllun gweithredu gyda chamau gweithredu ynghlwm wrth amserlen glir a chynlluniau gwariant, fel y mae'r Comisiynydd Plant a rhanddeiliaid eraill wedi galw amdano. Dywedodd y Dirprwy Weinidog ei bod yn siŵr y bydd cynllun gweithredu, ond bod angen gweithio ar y strategaeth ar hyn o bryd, cyn ei chyhoeddi eleni. Aeth ymlaen i ddweud:

"I think we have to have a long-term strategy, but that's got to be in the context that so many of these levers are with the UK Government, so it's going to be very difficult to get a strategy unless we have a Government in

¹³⁵ [Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18/01/2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 148](#)

¹³⁶ [Tystiolaeth ysgrifenedig, WGDB 23-24 16 Arsyllfa ar Hawliau Dynol Plant a Chanolfan Gyfreithiol y Plant Cymru](#)

¹³⁷ Archwilio Cymru, 'Amser am Newid! - Tlodi yng Nghymru', Tachwedd 2022, tudalen 7

¹³⁸ Comisiynydd Plant Cymru, 'Parthed: Gwaith craffu dilynol blynyddol', 12/01/2023

¹³⁹ [Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18/01/2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 152-154](#)

*the UK that recognises its responsibility in terms of running the benefits system, for example.*¹⁴⁰

Fe bwysom ni ar y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidogion i ymrwymo i gynllun gweithredu i sicrhau bod cyllid Llywodraeth Cymru i ddileu anghydraddoldebau i blant yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol. Mewn ymateb, cydnabu'r Gweinidog Gwasanaethau Cymdeithasol mai'r hyn y gellir ei wneud yw ceisio sicrhau newid lle mae modd gwneud hynny yng Nghymru. Dywedodd mai un o'r pethau allweddol y maent yn ymwybodol ohono yw bod gweithredu i atal problemau yn llawer gwell na cheisio trwsio'r broblem yn hwyrach. Fodd bynnag, pwysleisiodd, oni bai y daw newidiadau sylweddol gan Lywodraeth y DU, y bydd tloedi plant yn parhau'n her ddifrifol yng Nghymru.¹⁴¹

Ein barn ni

Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS)

165. Rydym ni, ynghyd â'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, yn croesawu'n fawr y gostyngiad sylweddol yn y nifer sy'n aros am apwyntiad claf allanol cyntaf CAMHS arbenigol. Mae hynny ar ei ben ei hun yn gyflawniad gwirioneddol i Lywodraeth Cymru, staff CAMHS, a'r staff meddygol, y staff therapiwtig a'r staff cymorth sy'n gweithio i wahanol gyrff cyhoeddus a thrydydd sector i gefnogi plant a phobl ifanc gyda'u hiechyd meddwl. Rydym yn mawr obeithio bod modd cadw at y llwybr gwelliant.

166. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol efallai mai dim ond dechrau taith person ifanc gyda CAMHS yw'r apwyntiad claf allanol cyntaf. Rydym felly'n ymuno â'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithadol yn gofyn i Lywodraeth Cymru ddarparu data sy'n nodi amseroedd aros ar gyfer yr apwyntiad cyntaf gyda CAMHS, cyfran y bobl ifanc y cynigir ail apwyntiad iddynt, a'r amseroedd aros ar gyfer yr apwyntiadau hynny, a hynny fesul bwrdd iechyd lleol. Gofynnwn i Lywodraeth Cymru ymrwymo i ddarparu'r data hwn inni pan fydd yn ymateb i'r adroddiad hwn, a phob chwe mis wedi hynny.

Recommendation 16. Mae'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn argymhell ar y cyd fod yn rhaid i ymatebion Llywodraeth Cymru i'n hadroddiadau, a phob chwe mis wedi hynny, ddarparu data i'r ddau bwyllgor, fesul bwrdd iechyd lleol, yn nodi:

¹⁴⁰ [Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18/01/2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 158](#)

¹⁴¹ [Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18/01/2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 164](#)

- amseroedd aros ar gyfer yr apwyntiad cyntaf gyda CAMHS;
- cyfran y bobl ifanc y cynigir ail apwyntiad iddynt; a'r
- amseroedd aros ar gyfer ail apwyntiad.

Diogelu a phlant sydd â phrofiad o ofal

167. Rydym yn croesawu ac yn cefnogi gwaith Llywodraeth Cymru mewn perthynas â lleihau dibyniaeth awdurdodau lleol ar staff asiantaeth. Rydym yn cydnabod pwyntiau'r Dirprwy Weinidog fod staff asiantaeth yn chwarae rhan hollbwysig yn y gweithlu gofal cymdeithasol ehangach. Fodd bynnag, gwyddom fod staff asiantaeth yn llawer drutach fesul awr na chyflogi staff yn uniongyrchol. Gall y costau ychwanegol o ddefnyddio staff asiantaeth i lenwi swyddi gwag yng ngweithlu awdurdodau lleol fod yn faich ar gyllidebau eu gwasanaethau plant, ac rydym yn sylweddoli eu bod eisoes dan bwysau sylweddol.

168. Fodd bynnag, o'r dystiolaeth a gawsom mewn perthynas â Chyllideb Ddrafft 2023-24, rydym yn ansicr beth – a phwy – sy'n rhan o'r gwaith hwn, pryd y disgwylir iddo gael ei gwblhau, a faint y bydd yn ei gostio. Byddwn yn archwilio'r materion hyn ymhellach fel rhan o'n hymchwiliad parhaus i wasanaethau ar gyfer plant sydd wedi bod mewn gofal. Yn y cyfamser, gofynnwn i Lywodraeth Cymru roi mwy o fanylion inni am y ffrwd waith bwysig hon.

Recommendation 17. Rhaid i Lywodraeth Cymru egluro'r canlynol mewn perthynas â'i rhaglen waith i leihau'r costau sylweddol i awdurdodau lleol am gyflogi staff gwasanaethau cymdeithasol asiantaeth:

- Cylch gorchwyl y rhaglen
- Llinellau amser allweddol mewn perthynas â'i chyflawni
- Y rhanddeiliaid a fydd yn gweithio ochr yn ochr â Llywodraeth Cymru
- Trefniadau llywodraethu'r rhaglen: sut mae'r gwaith yn cael ei gyflawni, ei fonitro a'i werthuso
- Amcangyfrif o'r cyllid a ddyrennir i'r rhaglen fesul blwyddyn ariannol.

169. Rydym yn croesawu'r manylion a gafwyd gan y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol a'i swyddogion am y gronfa newid ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, y gronfa diwygio radical, a chyllid ar gyfer dileu elw o ofal maeth pan ddaethant i roi tystiolaeth inni. Mae'n drueni mawr yn ein barn ni na ddarparwyd y wybodaeth hon yn y dystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd i ni o ystyried ein cais penodol mewn perthynas â phlant sydd wedi

bod mewn gofal. Er mwyn sicrhau bod gennym yr wybodaeth fwyaf diweddar a chywir, gofynnwn i Lywodraeth Cymru egluro ac ymhelaethu ar yr wybodaeth y maent wedi'i nodi ar lafar mewn perthynas â'r tair ffrwd gyllid hynny.

Recommendation 18. Rhaid i Lywodraeth Cymru roi dadansoddiad ar lefel prosiect o'r gronfa newid ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, y gronfa diwygio radical, a chyllid ar gyfer dileu elw o ofal maeth. Rhaid i'r dadansoddiad hwnnw gynnwys crynodeb o ddiben y prosiectau hynny, y prif bethau y gellir eu cyflawni, y cyllid a ddyrennir i'w cyflawni - a'r amserlenni sy'n gysylltiedig â'u cyflawni. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd esbonio pam na chafodd y Pwyllgor yr wybodaeth hon fel rhan o'i thystiolaeth ysgrifenedig i ni ar 21/12/2022 fel y gofynnwyd.

Tlodi plant

170. Prif ffocws gwaith craffu'r Senedd ar y Gyllideb Ddrafft yw defnydd arfaethedig Llywodraeth Cymru o gyllid ar gyfer y flwyddyn/blynyddoedd ariannol sydd i ddod. Yn amlwg, mae penderfyniadau a wneir gan Lywodraeth y DU yn effeithio ar lawer, os nad ar bob un, o'r materion yr ydym yn eu hystyried wrth graffu ar y Gyllideb Ddrafft. Mae'n gwbl briodol i Lywodraeth Cymru amlygu lle mae penderfyniadau a wneir gan Lywodraeth y DU (neu eraill) yn cael effaith sylweddol ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru. Dyma yw un o ganlyniadau anochel y mecanweithiau sy'n rheoli'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn cael y rhan fwyaf o'i chyllid, a chymhlethdod a natur ryng-gysylltiedig y setliad datganoli.

171. Nid ydym yn dadlau yn erbyn honiad Llywodraeth Cymru mai Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am lawer o'r mesurau i fynd i'r afael â thlodi plant. Fodd bynnag, nid yw hynny'n golygu nad oes angen i Lywodraeth Cymru nodi'n glir sut y bydd yn defnyddio pa bynnag fesurau sydd ganddi i leihau tlodi plant yma yng Nghymru.

172. Nid oeddem wedi'n hargyhoeddi gan ddadl y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol fod angen rhoi blaenoriaeth i strategaeth hirdymor, ac y daw camau gweithredu penodol i gyflawni'r strategaeth honno yn ddiweddarach. Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio strategaethau hirdymor o'r blaen. Nawr, yng nghanol argyfwng costau byw, ni allwn fforddio aros am gamau gweithredu pendant. Mae mwy o frys nag erioed yn perthyn i'r mater o godi plant allan o dlodi.

173. Mae'n ymddangos yn glir i ni fod y strategaeth hirdymor yn amlwg: dileu tlodi plant. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod y camau y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu'u cymryd i wneud hynny yn llawer mwy cymhleth. Rydym felly'n adleisio galwadau Comisiynydd Plant Cymru, Archwilio Cymru ac eraill i Lywodraeth Cymru flaenoriaethu'r gwaith sydd o fewn cwmpas ei phwerau o ddatblygu cynllun gweithredu tlodi plant, gyda chamau gweithredu clir, wedi'u

costio, y gellir eu cyflawni, y gellir eu mesur ac ag amserlen benodol, sydd o fewn gallu Llywodraeth Cymru.

Recommendation 19. Rhaid i Lywodraeth Cymru, o fewn chwe mis, ddatblygu cynllun gweithredu i ddileu tlodi plant yng Nghymru. Rhaid i'r cynllun gweithredu nodi camau gweithredu clir, wedi'u costio, y gellir eu cyflawni, y gellir eu mesur ac ag amserlen benodol, sydd o fewn cwmpas pwerau Llywodraeth Cymru i ddileu tlodi plant yng Nghymru.